Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

















# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2025 / 2026

## CANLLAWIAU STATUDOL DIWYGIEDIG I DDEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â'r cyfarfodydd Adrodd i Rieni Blynyddol. Mae'r trefniadau newydd yn golygu nid oes gofyniad bellach ar gyrff llywodraethu ysgolion i gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai rhieni fod â'r gallu i drafod materion sydd o bwys iddynt a chyrff llywodraethu.

1. Mae'n ofynnol o hyd i gyrff llywodraethu gynhyrchu a dosbarthu adroddiad blynyddol i'r rhieni.
2. Os bydd 10% o rieni disgyblion cofrestredig yr ysgol neu rieni 30 o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn yr ysgol - pa un bynnag o'r ffigurau sydd isaf - yn gofyn am gyfarfod â'r llywodraethwyr, mae'n ofynnol i gorff llywodraethu'r ysgol gynnal cyfarfod.
3. Gall fod yn ofynnol i gorff llywodraethu ysgol gynnal hyd at 3 cyfarfod i rieni bob blwyddyn academaidd.

Er gwybodaeth, nid oedd unrhyw fater wedi ei godi gan y rhieni i'w drafod mewn cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr yn 2024/25.

## CYFANSODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHOL 2025/26

Y mae'r cyfansoddiad yn unol â'r Erthyglau Llywodraethu perthnasol yn seiliedig ar 1133 disgybl o Fedi 2025: 6 rhiant lywodraethwr, 5 llywodraethwr AALl, 2 athro lywodraethwr, 1 staff lywodraethwr, 5 llywodraethwr cyfetholedig a'r Pennaeth = cyfanswm 20 Llywodraethwr.  Ysgol Grŵp 7 yw Ysgol Gyfun Gŵyr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Miss Aldyth Williams (Cadeirydd) | A.A.Ll. | tan Gorff. | 2029 |
| Mr Jeffrey Connick | Pennaeth | | |
| Mr Ben Roberts | Clerc | | |
| Parch. Dr. Adrian Morgan (Is-gadeirydd) | A.A.Ll. | tan Rhag. | 2029 |
| Mr Phil Morris | A.A.Ll. | tan Rhag. | 2026 |
| Parch. Dr. Ian Morris | A.A.Ll. | tan Gorff. | 2029 |
| Dr Robert Smith | A.A.Ll. | tan Awst | 2028 |
| Mrs Helen Osborne | Rhiant | tan Tach. | 2026 |
| Mrs Kate Reed | Rhiant | tan Tach. | 2026 |
| Mrs Luned Jones | Rhiant | tan Tach. | 2028 |
| Mrs Karen Thomas | Rhiant | tan Tach. | 2028 |
| Mr Darrill Williams | Rhiant | tan Tach. | 2028 |
| Dr Tricia Skuse | Rhiant | tan Tach | 2026 |
| Mrs Meinir Hutchings | Cyfethol | tan Tach. | 2026 |
| Mrs Rahel Williams | Cyfethol | tan Tach. | 2026 |
| Mr Peter Morgan | Cyfethol | tan Tach. | 2028 |
| Dr Steve Morris | Cyfethol | tan Medi | 2027 |
| Mrs Saran Thomas | Cyfethol | tan Medi | 2028 |
| Mrs Non Lewis | Athrawon | tan Medi | 2028 |
| Mrs Jan Ohlsson Jones | Athrawon | tan Medi | 2028 |
| Mrs Marie Davies | Staff | tan Medi | 2028 |
| Prif Ddisgyblion | Cyngor Ysgol | tan Awst | |

## GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Pleser o'r mwyaf yw eich cyfarch fel Cadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgol eleni unwaith eto.

Bu'r flwyddyn 2024 - 2025 yn un hynod brysur wrth i'r ysgol ddathlu 40ain mlynedd ers ei sefydlu. Ar 9 Medi 1984, agorwyd Ysgol Gyfun Gŵyr fel ail ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Gorllewin Morgannwg gydag ond 100 o ddisgyblion ar y gofrestr. Roedd y dalgylch yn eang, yn cynnwys ardaloedd Treforys a Phort Talbot bryd hynny. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau arbennig i ddathlu pen blwydd nodedig yr ysgol yn cynnwys sioe gerdd Nôl i'r 80au; gemau rygbi a phêl rwyd rhwng cyn-ddisgyblion a staff yr ysgol; cinio arbennig i staff a chyn-staff yng Ngwesty'r Brenin Arthur ym Mhenrhyn Gŵyr, a chyngerdd fawreddog yn Neuadd y Brangwyn ym mis Gorffennaf oedd yn ddiweddglo ysgubol i'r dathliadau. Yn ddi-os uchafbwynt y noson oedd gweld côr o dros 250 o staff, disgyblion a chyn-ddisgyblion, dan arweiniad ein cyn-bennaeth Cerdd, Meinir Richards, yn canu'r gân Dathlu'r Deugain a oedd yn waith comisiwn gan Gareth Williams, ein Dirprwy Bennaeth presennol, ac Eric Jones, y cerddor nodedig a'n cyn-ddirprwy Bennaeth. Roedd yn noson i'w chofio gyda chamerâu'r rhaglen deledu, Heno, yno hefyd i gofnodi'r achlysur!

Cafwyd cystadlu ac ymroi brwd i holl weithgarwch Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr 2025, wrth i honno ymweld â Rhanbarth Morgannwg. Bu'n Eisteddfod hynod lwyddiannus i ddisgyblion yr ysgol wrth iddynt ennill 25 o wobrau llwyfan a gwaith cartref. Hefyd, fel rhan o'r paratoadau, ymunodd disgyblion Gŵyr gyda'u ffrindiau o Fryn Tawe ac Ystalyfera Bro Dur i recordio cân yr Eisteddfod, a gyfansoddwyd gan Huw Chiswell a Bronwen Lewis, a daeth y tair ysgol hefyd ynghyd i berfformio'r gwaith cyfoes Teilwng yw'r Oen adeg y Nadolig er mwyn codi arian i gynnal yr Eisteddfod. Am flwyddyn yn wir!

Yn ystod 2024-25, bu ffocws yr ysgol ar wella adeiladau a'r ddarpariaeth addysgol. Trwy gyd-weithio â'r Awdurdod Addysg, adleoliwyd Canolfan Addysgu Arbenigol yr ysgol, o'r adeilad ger prif gatiau'r ysgol i lawr uchaf y prif adeilad. Bellach ceir uned addysgu a dysgu cynhwysol, fodern a lliwgar yn cynnwys esgynnydd (lifft) a thoiledau arbennig sy'n gwella'r cyfleusterau ac yn ehangu'r lleoedd sydd ar gael i uchafswm o 18 dysgwr. Enw'r ganolfan newydd, yn addas iawn, yw'r Goleudy. Y mae cynhwysiant yn flaenoriaeth i ni fel llywodraethwyr ac felly mae gweld cwblhau'r project hwn yn destun pleser mawr. Fe fydd hefyd yn gam ymlaen yn natblygiad darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg y sir.

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ddiwethaf, ffarweliwyd, yn ôl yr arfer, gyda rhai staff am amrywiol resymau, ond rhaid cofnodi yn arbennig ein dyled i Aled Tinnuche, fel Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg a wasanaethodd yr ysgol am ryw 30 mlynedd. Elwodd cannoedd ar gannoedd o ddisgyblion o'i arweiniad a'i addysg ysbrydoledig. Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddo. Dymunwn yn dda hefyd i Alun Rennolf, Pennaeth yr Adran Ffiseg, wrth iddo ymadael â ni ym mis Gorffennaf 2025 i fynd i wasanaethu fel gweinidog yr Efengyl yng Ngogledd Cymru. Bu ei gyfraniad yntau hefyd i fywyd yr ysgol yn un arwyddocaol.

Mae'n agos at 1,200 o ddysgwyr yn yr ysgol ac mae safle'r ysgol yn eang iawn. Daw hynny â'i heriau wrth gwrs, yn enwedig i gynnal a chadw safle diogel. Mae twf yr ysgol o ganlyniad i'w llwyddiant diddiwedd. Fe welwyd parhad y llwyddiant hwn gyda chanlyniadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch da iawn Haf diwethaf a llongyfarchwn y staff a'r dysgwyr ar eu gwaith cydwybodol yn sicrhau hyn. Dymunwn, fel Corff Llywodraethol, bob hwyl i'r Pennaeth a Thîm Arweinyddiaeth Ysgol Gyfun Gŵyr wrth iddynt barhau â'r gwaith o gynnal enw rhagorol yr ysgol.

Cyn gorffen, estynnwn ddiolch i chi, yn rhieni a gwarcheidwaid, unwaith yn rhagor am eich cefnogaeth a chydweithrediad parod. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio hwylus dros y flwyddyn sydd i ddod.

Yn gywir,

Aldyth Williams (Cadeirydd)

## CYNLLUN GWEITHREDU ÔL AROLWG

Crynodeb o brif dargedau'r Cynllun fel ymateb i'r adroddiad Arolwg diwethaf Estyn Hydref 2023:

- Gwella'r diffygion a nodir am yr addysgu yn yr adroddiad
- Sicrhau bod gan arweinwyr ar bob lefel gyfrifoldebau clir a strategol i yrru gwelliannau ar draws yr ysgol
- Sicrhau bod yr holl arweinwyr yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd gan gryfhau eu gallu i arfarnu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion
- Gweithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a adnabuwyd yn ystod yr arolygiad

## CODI SAFONAU

Mae'r ysgol yn parhau i anelu am y safonau uchaf ym mhob Cam Cynnydd a Chyfnod Allweddol trwy sicrhau safonau dysgu ac addysgu cyson o safon uchel, trwy osod targedau heriol i bob disgybl, trwy dracio cynnydd disgyblion yn ofalus, trwy hybu cynnydd disgyblion mewn grwpiau targed a thrwy gydweithio yn agos gyda rhieni. Mae'r ysgol yn parhau i hybu cyrhaeddiad grwpiau o ddysgwyr i ddatblygu sgiliau astudio cadarn fel eu bod yn cyrraedd yr un safonau â disgyblion eraill. Anelwn yn flynyddol at leihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched a hefyd i leihau effaith amddifadedd, neu anghenion dysgu ychwanegol, ar gyflawniad disgyblion, fel bod pob disgybl yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn. Sefydlwyd y *Trobwynt, yr Encil, y Llusern a'r Goleudy* fel canolfannau lle mae staff arbenigol yn cefnogi disgyblion bregus ac ADY er mwyn eu cynorthwyo mewn modd rhagweithiol. Trwy'r canolfannau hyn, rhoddir cyfle i ddisgyblion ddal i fyny â gwaith a geir yn heriol gyda chefnogaeth staff a hefyd cynhelir sesiynau cefnogi er mwyn eu hymgryfhau yn emosiynol fel dysgwyr. Mae'r system neges destun i rieni am waith cartref na chyflwynwyd a hynny trwy *Classcharts* yn ddull o dracio a monitro ymddygiad a gwaith cartref. Mae'r ffocws yn parhau ar ddatblygu strategaethau i leihau effaith amddifadedd, a chynllunio cwricwlaidd mewn ymateb i ofynion Cwricwlwm i Gymru 2022 gan roi sylw arbennig ar adnabod cynnydd. Hefyd, ffocysir ar gefnogi safonau llythrennedd disgyblion wedi'r cyfnodau Clo ac hunan-ynysu er sicrhau eu bod yn gyson a'u hoed a'u gallu. Eleni a'r flwyddyn nesaf byddwn yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer cyflwyno'r cyrsiau TGAU a TAAU newydd ar gyfer 2025 – 2028.

## Y DYSGU A'R ADDYSGU

Defnyddir sylfaen y wers pum cam i hybu sgiliau pwnc a'r cylch meddwl o gynllunio, datblygu a myfyrio gyda ffocws cynyddol ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol ar ddiwallu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae 12 egwyddor addysgeg y Cwricwlwm Newydd yn flaenllaw. Rhoddir pwyslais mawr ar lunio gwersi sy'n hybu'r defnydd o sgiliau trawsgwricwlaidd o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ac sy'n codi safonau'r sgiliau hyn trwy eu hymarfer ar draws y cwricwlwm mewn modd pwrpasol. Mae'r ysgol wedi bod yn canolbwyntio ar gael cysondeb dealltwriaeth o beth yw nodweddion gwersi ardderchog. Y mae pob athro/athrawes yn cael eu harsylwi yn ystod y flwyddyn, er mwyn monitro safonau a rhannu arfer dda. Anogir athrawon i gydweithio er mwyn arsylwi ei gilydd gan felly dysgu oddi wrth ei gilydd. Ein nod fel ysgol yw sicrhau gwersi o safon uchel yn gyson ar hyd y flwyddyn. Mae craffu ar lyfrau disgyblion pob Cam Allweddol yn rhan bwysig o brosesau hunan arfarnu'r ysgol yn flynyddol ynghyd â theithiau dysgu. Mae adrodd nôl ar arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau i'r staff yn ddigwyddiad rheolaidd ym mywyd yr ysgol fel offeryn i yrru safonau uwch. Mae rheolwyr uwch yn rhan o broses sicrhau ansawdd arfarnu adrannol yn gwirio bod y canfyddiadau hyn yn cael eu cydnabod mewn cynlluniau gwella er mwyn gwella ar safonau.

## NEWIDIADAU I LAWLYFR YR YSGOL ERS EI GYHOEDDI

Cynhwysir unrhyw newidiadau i lawlyfr yr ysgol ers ei gyhoeddi yn yr adroddiad hwn.

## BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL GYFUN GŴYR 2025 / 2026

- Cryfhau ymhellach ymwybyddiaeth o Gymreictod ar draws yr ysgol ymhlith dysgwyr a staff a hynny er mwyn ymfalchïo yn ein hunaniaeth ieithyddol a diogelu'r defnydd gorau o'r iaith ymhob sefyllfa ym mywyd yr ysgol

- Parhau i dargedu materion fel presenoldeb unigolion, trawma, osgoi'r ysgol (*Emotional Based School Avoidance*), Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb ac ail-ddylunio Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar ffurf y cwricwlwm *Dysgu Byw*

- Lledu rhagoriaeth yn y dysgu trwy ddatblygu cwrs i'n dysgwyr ar *Effeithiolrwydd Dysgu* fel rhan o gwricwlwm *Dysgu Byw*'r ysgol er mwyn ffocysu ar feithrin dysgwyr effeithiol ac annibynnol

- Sicrhau bod arweinwyr canol ac athrawon yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sicrhau ansawdd gan gryfhau ymhellach eu gallu i arfarnu effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion h.y. adnabod cryfderau a meysydd gwelliant eu dysgwyr a hynny trwy graffu ar lyfrau, arsylwi gwersi yn rheolaidd a thrafodaethau proffesiynol

- Parhau i sicrhau bod gan arweinwyr ar bob lefel gyfrifoldebau clir a strategol i yrru gwelliannau ar draws yr ysgol i gynnwys cynnal safonau hanesyddol ardderchog CA4 yr ysgol

- Parhau i weithio gyda'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a adnabuwyd yn ystod arolygiad 2023 a rhai sy'n ymddangos gyda threigl amser.

## Y DEFNYDD O'R GYMRAEG

Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a disgwylir i staff a disgyblion ei defnyddio'n unig ar dir yr ysgol, ac eithrio mewn gwersi megis: Saesneg, Gwyddoniaeth (pan y'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg) ac Ieithoedd Rhyngwladol. Ar wahân i'r Saesneg, addysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn CA4 bydd yn bosib dewis astudio Gwyddoniaeth naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn CA5, addysgir y Gwyddorau drwy gyfrwng y Saesneg yng Ngŵyr ond mae'n bosib eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mryn Tawe, dan drefniadaeth Partneriaeth Gŵyr-Bryn Tawe ôl 16.



## SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD / SGILIAU CYFANNOL

Y mae'r ysgol yn awyddus iawn i wella'n barhaus sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol pob disgybl fel y gallant: -

- ddarllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn y Gymraeg a'r Saesneg
- gymhwyso rhif i lefel sy'n angenrheidiol i wneud cynnydd yn yr ysgol
- ddatblygu eu sgiliau Cymhwysedd Digidol
- ddatblygu ymhellach eu creadigrwydd
- feddwl yn feirniadol
- ddatrys problemau
- ddyfnhau eu sgiliau metawybyddol

Fel rhan o'r gwaith pwysig hwn, y mae ffocws y cyfnodau bugeiliol ar agweddau megis llythrennedd a rhifedd wrth gyflwyno e.e. 'rheol iaith yr wythnos' neu 'bos rhifedd yr wythnos'. Rhan annatod o weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 yw hyrwyddo'r sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol hyn yn statudol o Flwyddyn 7 ymlaen serch hyn mae gweledigaeth yr ysgol yn mynnu ehangu a dyfnhau 'r sgiliau hyn yn addysgu, dysgu ac asesu ar gyfer dysgu pob disgybl ymhob Cam Cynnydd a Chyfnod Allweddol a hynny drwy ffocysu ar e.e. yr Wyth Ymddygiad Darllen a'r Chwe Dull Ysgrifennu Anllenyddol, dysgu sut i ddysgu a.y.b.  Anogir rhieni a gwarcheidwaid i fynychu nosweithiau rieni neu gysylltu gyda'r ysgol i hyrwyddo datblygiad y sgiliau allweddol hyn eu plant.

## ADOLYGU POLISÏAU'R YSGOL

Adolygwyd pob un o bolisïau'r ysgol yn ystod 2025 i sicrhau eu bod yn gyfredol e.e. Polisïau Asesu ac Addysgu a Dysgu a chrëir polisïau newydd yn unol â'r gofynion statudol. Diogelir yn ôl ein harfer fod pob polisi yn adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol newydd.



# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae gan blentyn/person ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) os oes ganddynt anhawster dysgu neu anabledd (os yw'r ADY yn deillio o gyflwr meddygol neu arall) sy'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud darpariaeth ddysgu arbennig ar eu cyfer.

Mae gan blentyn/person ifanc ADY:

a) os oes ganddynt anhawster i ddysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster a gaiff y rhan fwyaf o blant yr un oed; neu

b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu llesteirio rhag gwneud defnydd o gyfleusterau addysgol o fath a ddarperir yn gyffredinol i blant o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod addysg leol.

Nod yr ysgol yw sicrhau gwerth cyfartal i bob disgybl ac i gyflawni hyn y mae'r ysgol yn derbyn y dylai pob unigolyn gael y cyfle i gyfranogi o gwricwlwm eang, cytbwys a gwahaniaethol beth bynnag yw ei anghenion addysgol arbennig ac i ddatblygu hyd eithaf ei allu o fewn y cwricwlwm hwn. Seilir y polisi hwn ar yr egwyddor o gynhwysiant ac atgyfnerthir y polisi hwn gan bolisi cynhwysiant yr ysgol. Sicrhawn ein bod yn dilyn system ddisgybl canolog gan ystyried barn rhieni a disgyblion wrth wneud penderfyniadau.

I gyflawni hyn bydd yr ysgol yn:

i) integreiddio'r disgyblion i sicrhau dosbarthiadau gallu cymysg ym mlwyddyn 7 gan annog y defnydd o dasgau gwahaniaethol addas lle bynnag bo'r angen yn codi a lle bynnag bo'n bosib.

ii) o flwyddyn 8 ymlaen, sefydlu gweithdrefn sy'n galluogi'r disgyblion ag anawsterau i gael sylw a chefnogaeth deilwng, ac i weithio ar gyflymder addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial.

iii) cyflogi cynorthwywyr arbenigol ar gyfer llythrennedd a rhifedd, er mwyn gweithio gydag unigolion a grwpiau bach i gefnogi eu hanawsterau penodol.

iv) cyflogi Uwch Gynorthwyydd i arwain yr Encil sy'n galluogi disgyblion ag Anghenion Cyfathrebu Cymdeithasol i dderbyn ymyrraeth i'w cynorthwyo gyda sefyllfaoedd penodol. Sicrha'r Encil fod darpariaeth a chysondeb i addysg y dysgwyr pan nad ydynt yn astudio cwrs llawn e.e. Ffrangeg yn CA3 / BAC yn CA4.

v) cyflogi Cyd-gysylltydd ADY a fydd yn: -

- Darparu gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i'r athrawon ar ddisgyblion penodol ag anawsterau addysgiadol amrywiol (gweler y llawlyfr Anawsterau Amrywiol)
- Gwerthuso profiadau addysgol disgyblion ag anawsterau dysgu a monitro darpariaeth yr ysgol ar hyn
- Gweithredu fel dolen-gyswllt rhwng y plant, y rhieni, yr ysgol a'r holl weithwyr ac/asiantaethau arbenigol
- Paratoi, creu, cynnal ac adolygu'r Cynlluniau datblygu Unigol
- Paratoi'r ysgol gyfan ar gyfer cyfundrefn y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys i Gymru 2018 o Fedi 2021 ymlaen

vi) cynnal dulliau asesu ar draws y cwricwlwm sy'n cydnabod gwendidau a chryfderau disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, tracio cynnydd y disgyblion hynny a gosod targedau addas er mwyn hyrwyddo datblygiad pellach.

vii) cydnabod bod llais gan y disgybl unigol wrth drafod ei anghenion addysgol a sicrhau proffil un dudalen ac adolygiadau sy'n ddisgybl canolog.

viii) derbyn fod pob athro yn athro ADY a phob aelod o'r staff a chyfraniad pwysig i addysg disgyblion ag ADY o fewn yr ysgol.

Ar hyn o bryd (Medi 2025), mae 83 o'n disgyblion ar y gofrestr ADY a phawb bellach wedi trosglwyddo i'r Ddeddf ADY newydd. Mae gan yr 83 disgybl sydd ar y gofrestr ADY gynllun datblygu unigol (CDU).

Agorwyd Uned Addysg Ychwanegol yr ysgol ym Medi 2009, gyda'r Uned yn derbyn cartref ar ei newydd-wedd o fewn yr ysgol ar gyfer Medi 2025 o dan yr enw, 'Y Goleudy'. Bydd y Goleudy yn cynnig darpariaeth i uchafswm o ddeunaw o ddisgyblion ag Anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol a/neu Anawsterau Dysgu. Nod yr uned, yw cynnig darpariaeth arbenigol, benodol i'r disgyblion o fewn awyrgylch tawel, cartrefol, wrth hybu hyder ac annibyniaeth y disgyblion. Mae gan yr uned bolisi o integreiddio cryf, ac fe roddir bob cyfle i holl ddisgyblion y Goleudy i ymgymryd â gwersi a gweithgareddau o fewn y prif-ffrwd megis pynciau allgraidd. Byddai gan bob dysgwr sy'n derbyn addysg drwy'r Uned, gynllun datblygu unigol a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol. I wneud cais ar gyfer cael lleoliad yn y Goleudy, bydd angen i'r ysgolion cynradd, ar ôl adolygiad blwyddyn 5, gyfeirio at yr Awdurdod Lleol ac i'r panel ADY.

## IECHYD A DIOGELWCH

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod ag eraill, y mae'r ysgol yn ffocysu ar gydymffurfio gyda holl ofynion statudol Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod disgyblion, staff ac ymwelwyr yr ysgol yn ddiogel ar bob achlysur. Y mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cael ei ddiwygio'n flynyddol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn ymrwymo i bolisi o Fwyta'n Iach, ac o ganlyniad rydym wedi lleihau ar argaeledd bwydydd megis sglodion yn y ffreutur.

## ADDYSG GORFFOROL A GWEITHGAREDDAU CORFFOROL ALLGYRSIOL

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang a chyfoethog o weithgareddau corfforol gwahanol er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr mor weithredol ac iach ag sydd yn bosibl ac er mwyn creu mwynhad gydol oes o fod yn weithgar a chymryd rhan mewn chwaraeon. Drwy weithgareddau corfforol cwricwlaidd ac allgyrsiol, caiff pob unigolyn gyfle i gymryd rhan.

Cynigir y gweithgareddau canlynol: pêl-rwyd, hoci, pêl-droed, rygbi merched a bechgyn, pêl-fasged, gymnasteg, nofio, traws gwlad, athletau, rownderi, pêl-fâs, tenis, criced, pêl-bluen, pêl-foli, sgïo, gweithgareddau awyr agored a chlwb dawns.

## ANABLEDD

Y mae'r Llywodraethwyr yn ymroddedig i sicrhau cydraddoldeb i bob person anabl sy'n defnyddio safle'r ysgol. Yn sgil hyn, y mae gan yr ysgol Gynllun Cydraddoldeb Strategol gyda'r bwriad o wella darpariaeth yr ysgol. Adolygir y Cynllun yn flynyddol ac o ganlyniad y mae gan yr ysgol gofnod o anableddau rhanddeiliaid a gwnaed camau arwyddocaol wrth adnewyddu, trwy raglen barhaus, y drysau, adeiladau, rampiau mynediad, ac yn y blaen. Bwriada'r ysgol barhau i weithio'n ddyfal dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau mwy o gydraddoldeb anabledd.

## ADEILADAU A MATERION Y SAFLE

Y datblygiadau adeiladu mwyaf arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd addasu llawr cyntaf y prif adeilad yn ei gyfanrwydd, a'i drawsnewid yn Ganolfan Addysgu Arbenigol yr ysgol. Bellach ceir Uned Addysgu a Dysgu cynhwysol, fodern a lliwgar yn cynnwys esgynnydd (lifft) a thoiledau arbennig sy'n uwchraddio'r cyfleusterau ac yn ehangu'r ddarpariaeth hyd at o leiaf 18 dysgwr. Enw'r Uned newydd fydd "Y Goleudy".

Hefyd, addaswyd yr hen Uned Addysg Arbennig (sef y Tŷ) a fydd yn gartref newydd i'r Uned Gwell, y Trobwynt a'r Ystafell Gwnsela.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar gynlluniau i wella ardaloedd eraill o amgylch yr ysgol yn 2026/27, ond efallai y bydd cyfyngiadau ariannol dybryd yn nacáu unrhyw addasiadau mawr megis adnewyddu'r Adran Wyddoniaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## TOILEDAU'R YSGOL/DŴR YFED

Y mae gan yr ysgol nifer digonol o doiledau yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Lleolir toiledau yn y rhan fwyaf o brif flociau addysgu'r ysgol. Y mae gan yr ysgol hefyd doiledau digonol i ymateb i nifer y staff. Glanheir y toiledau'n ddyddiol gan Wasanaethau Glanhau'r Awdurdod Lleol. Arolygir cyflwr y toiledau'n ddyddiol gan lanhawyr a staff y safle. Darperir adnoddau toiled allan o gyllid yr ysgol. Y mae gan y rhan fwyaf o'r toiledau sychwyr dwylo electronig. Hefyd, y mae ffynonellau dŵr yfed glân i'w yfed ar gael ar gyfer disgyblion a staff yr ysgol.

## AMSERAU'R DYDD

8.30 – Cyfarfodydd Athrawon
8.40 – Cyfnod Cofrestru a Gwasanaethau
9.00 - Gwers 1
9.50 - Gwers 2
10.40 - Egwyl
11.00 - Gwers 3
11.50 - Gwers 4
12.40 - Cinio
1.30 – Gwers 5
2.20 - Gwers 6
3.10 - Rhyddhau'r disgyblion am y bysus



## DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU'R YSGOL 2025/26

| | | | Gwyliau Hanner Tymor | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tymor** | **Dechrau Tymor** | **Diwedd Tymor** | **Dechrau** | **Gorffen** | **Dechrau Tymor** | **Diwedd Tymor** | **Nifer y Dyddiau** |
| **Hydref 2025** | **Dydd Llun 1 Medi** | **Dydd Gwener 24 Hydref** | **Dydd Llun 27 Hydref** | **Dydd Gwener 31 Hydref** | **Dydd Llun 3 Tachwedd** | **Dydd Gwener 19 Rhagfyr** | **75** |
| | | | | | | | |
| **Gwanwyn 2026** | **Dydd Llun 5 Ionawr** | **Dydd Gwener 13 Chwefror** | **Dydd Llun 16 Chwefror** | **Dydd Gwener 20 Chwefror** | **Dydd Llun 23 Chwefror** | **Dydd Gwener 27 Mawrth** | **55** |
| | | | | | | | |
| **Haf 2026** | **Dydd Llun 13 Ebrill** | **Dydd Gwener 22 Mai** | **Dydd Llun 25 Mai** | **Dydd Gwener 29 Mai** | **Dydd Llun 1 Mehefin** | **Dydd Llun 20 Gorffennaf** | **65** |
| | | | | | | | **195** |

Bydd yr ysgol ar gau ar y dyddiadau canlynol ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd/Gwaith Paratoi ar:

**Llun 1af Medi 2025; Mawrth 2ail Medi 2025; Gwener 24ain Hydref 2025; Gwener 27ain o Fawrth 2026; Gwener 19eg Mehefin 2026; Llun 20fed o Orffennaf 2026**
**Bydd Gŵyl Calan Mai ar 4ydd Mai 2026**

## MANYLION CYLLIDOL (Ebrill '24- Mawrth '25)

Am fanylion cyllideb yr ysgol yn 2024-25– **gweler yr Atodiad isod** sydd wedi ei ddarparu gan yr Awdurdod.

Ym mis Gorffennaf eleni cafwyd archwiliad ariannol annibynnol gan archwilwyr yr Awdurdod.

Yn dilyn cyd-weithio ar y cyd am gyfnod o dros fis, yn cynnwys darparu gwybodaeth ac ymweliad gyda'r safle, cafwyd archwiliad llwyddiannus iawn. Rydym yn hapus gyda'r dyfarniad o 'sicrwydd sylweddol' bod camau cyllidol cywir a diogel mewn lle. Mae'r dyfarniad yn adlewyrchiad o'r drefn a'r prosesau sydd mewn lle yn yr ysgol o ran ein materion ariannol. Rhaid diolch i'r tîm cyllid dan arweiniad y Rheolwr Busnes Ben Roberts am y gwaith cydwybodol a thrylwyr sy'n cymryd lle o ddydd i ddydd ac sydd wedi sicrhau adroddiad clodwiw.

Unwaith eto, ni hawliwyd unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth gan aelodau'r Corff Llywodraethol. Er hynny, dymuna'r Llywodraethwyr estyn llawer o ddiolch i'r ysgol am ddarparu lluniaeth ysgafn o de/coffi a bisgedi gogyfer â chyfarfodydd y Corff Llywodraethol – gwerthfawrogir hyn yn fawr.
Hoffwn hefyd ddatgan ni dderbyniwyd unrhyw fuddiannau ariannol neu gymwynasau gan Lywodraethwyr/Staff yr ysgol yn 2024-25.

## YSGOL / SCHOOL: Ysgol Gyfun Gŵyr

| MANTOLEN GWARIANT BLWYDDYN ARIANNOL 2024/2025<br>STATEMENT OF ACTUAL EXPENDITURE 2024/25 FINANCIAL YEAR | | | |
|---|---|---|---|
| | **Delegated Expenditure** | **Non-Delegated Expenditure** | **Total Net Expenditure** |
| | ***£*** | ***£*** | ***£*** |
| Teachers Salaries | 4,933,951 | 33,118 | 4,967,069 |
| Salaries | 1,235,223 | 51,464 | 1,286,687 |
| Other Employee Costs | -2,527 | 712 | -1,815 |
| Premises | 30,419 | 0 | 30,419 |
| Transport | 5,918 | 1,172,524 | 1,178,441 |
| Supplies & Services | 1,534,030 | 0 | 1,534,030 |
| Recharges | 13,956 | 70,939 | 84,895 |
| | | | |
| ***Gross Expenditure*** | ***7,750,969*** | ***1,328,757*** | ***9,079,726*** |
| | | | |
| *Grant Income* | -661,618 | 0 | -661,618 |
| *Other Income* | -745,460 | -40,542 | -786,002 |
| | | | |
| ***Gross Income*** | ***-1,407,077*** | ***-40,542*** | ***-1,447,620*** |
| | | | |
| ***Net Expenditure*** | ***6,343,892*** | ***1,288,215*** | ***7,632,106*** |
| | | | |
| | | | |
| **RESERVES:** | ***£*** | | |
| FINAL FORMULA ALLOCATION: | 6,184,946 | | |
| TOTAL NET EXPENDITURE: | 6,343,892 | | |
| **TRANSFER TO / (FROM) RESERVES:** | **-158,946** | | |
| | | | |
| OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/24 | 582,773 | | |
| **CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/25** | **423,827** | | |

## CYMWYSTERAU ALLANOL 2025

Llongyfarchiadau mawr i holl staff a disgyblion yr ysgol am yr holl waith caled a wnaed i ennill canlyniadau ardderchog yn CA4 a CA5.

| Tymor: Mehefin 2024 | Cymhwyster: TGAU | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **U** |
| ADDYSG GORFFOROL | 66 | 3 | 11 | 21 | 22 | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| ADDYSG GREFYDDOL | 13 | 0 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| AST CYFRYNGAU | 12 | 0 | 0 | 3 | 3 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| CELF | 20 | 5 | 4 | 3 | 5 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| CERDDORIAETH | 10 | 3 | 4 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYFRIFIADUREG | 14 | 2 | 1 | 1 | 4 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| CYMRAEG LLENYDDIAETH | 149 | 5 | 16 | 40 | 43 | 35 | 10 | 0 | 0 | 0 |
| CYMRAEG IAITH | 181 | 1 | 21 | 58 | 53 | 25 | 13 | 7 | 2 | 1 |
| DAEARYDDIAETH | 45 | 4 | 9 | 7 | 12 | 6 | 5 | 2 | 0 | 0 |
| DRAMA | 13 | 1 | 1 | 2 | 3 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 |
| DYLUNIO A THECHNOLEG | 67 | 1 | 7 | 24 | 23 | 8 | 1 | 2 | 1 | 0 |
| FFOTOGRAFFIAETH | 44 | 7 | 11 | 17 | 5 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| FFRANGEG | 14 | 5 | 4 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| HANES | 33 | 7 | 13 | 6 | 3 | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| IECHYD A GOFAL | 23 | 2 | 7 | 6 | 4 | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 |
| MATHEMATEG | 182 | 26 | 28 | 32 | 38 | 30 | 21 | 1 | 1 | 5 |
| MATHEMATEG RHIFEDD | 160 | 15 | 30 | 22 | 47 | 18 | 18 | 0 | 0 | 10 |
| SAESNEG IAITH | 184 | 5 | 22 | 42 | 58 | 39 | 15 | 3 | 0 | 0 |
| SAESNEG LLEN | 165 | 7 | 30 | 63 | 41 | 16 | 8 | 0 | 0 | 0 |
| SBAENEG | 27 | 5 | 5 | 4 | 7 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 |
| TECSTILAU | 26 | 2 | 2 | 5 | 8 | 3 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| LLADIN L1 | 9 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 4 |
| | **NIFER** | **9** | **8** | **7** | **6** | **5** | **4** | **3** | **2** | **U** |
| ELECTRONEG (Eduqas) | 14 | 2 | 2 | 1 | 2 | 0 | 2 | 2 | 2 | 1 |
| LLADIN (Eduqas) | 6 | 0 | 2 | 0 | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Y FAGLORIAETH** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **P*** | **P1** | **U** | | |
| HER SGILIAU CA4 | 161 | 18 | 20 | 44 | 68 | 10 | 0 | 1 | | |

| Tymor: Mehefin 2025 | Cymhwyster: TAG / Lefel A | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **U** |
| ADDYSG GORFFOROL (TAG A) | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| ALMAENEG (TAG A) | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AST. CYFRYNGAU (TAG A) | 3 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| BYWYDEG (TAG A) | 29 | 1 | 7 | 10 | 5 | 3 | 2 | 1 |
| CELF A DYL (TAG A) | 4 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| CELF A DYL TECSTILAU (TAG A) | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CEMEG (TAG A) | 21 | 1 | 6 | 8 | 5 | 1 | 0 | 0 |
| CERDDORIAETH (TAG A) | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CYMRAEG IAITH (TAG A) | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| DAEARYDDIAETH (GCE A) | 5 | 0 | 2 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| D.T. (TAG A) | 9 | 0 | 1 | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| ELECTRONEG (TAG A) | 3 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| FFISEG (TAG A) | 18 | 1 | 2 | 4 | 6 | 3 | 1 | 0 |
| FFRANGEG (TAG A) | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| GWLEIDYDDIAETH (TAG A) | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| HANES (TAG A) | 7 | 0 | 3 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| MATHEMATEG (TAG A) | 27 | 3 | 5 | 6 | 6 | 4 | 2 | 1 |
| MATHEMATEG PELLACH (TAG A) | 4 | 1 | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| SAESNEG (TAG A) | 16 | 1 | 4 | 6 | 3 | 2 | 0 | 0 |
| SBAENEG (TAG A) | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| SEICOLEG (TAG A) | 11 | 1 | 3 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| TROSEDDEG | 4 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| TWRISTIAETH | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| IECHYD A GOFAL (TAG A) | 4 | 0 | 0 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| **Y FAGLORIAETH** | | | | | | | | |
| HER SGILIAU - TYST.L3 | 61 | 7 | 26 | 15 | 11 | 1 | 1 | 0 |
| **DIPLOMA / TYSTYSGRIF L3** | | | | | | | | |
| IECHYD A GOFAL (Diploma L3) | 6 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AST.BUSNES (Diploma L3) | 4 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | **NIFER** | **D*** | **D** | **M** | **P** | **U** | | |
| GWYDDOR BWYD CYMHWYSOL (Diploma L3) | 7 | 0 | 0 | 3 | 3 | 1 | | |

| CYMHWYSTER BTEC L3 | NIFER | D* | D | M | P |
|---|---|---|---|---|---|
| GWAS AMDDIFFYN L3 BTEC | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 |

| Tymor: Mehefin 2025 | Cymhwyster : TAG / UG | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **PWNC** | **NIFER** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **U** |
| ELECTRONEG (TAG AS) | 9 | 0 | 0 | 3 | 2 | 0 | 3 |

| CYMWYSTERAU GALWEDIGAETHOL | NIFER | Anrh* | Anrh | Teilyngdod 2 | Llwyddo L2 | Llwyddo L1 | U |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWASANAETHAU CYHOEDDUS (BTEC L1/2) | 17 | 3 | 2 | 2 | 5 | 4 | 1 |

| | NIFER | Anrh* | Anrh | Teilyngdod 2 | Teilyngdod L2 | Anrh *L1 | Anrh L1 | Teilyngdod L1 | LlwyddoL1 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ARLWYO & LLETYGARWCH (TYST L1/2) | 22 | 0 | 2 | 6 | 6 | 7 | 1 | 0 | 0 |
| Busnes Adwerthu (TYST L1/2) | 6 | 0 | 2 | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |

| CYMHWYSTER DWYRADD TGAU | NIFER SAES | NIFER CYM | ** | *A | AA | AB | BB | BC | CC | CD | DD | DE | EE | EF | FF | FG | GG | U |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYDDONIAETH | 152 | 24 | 8 | 15 | 10 | 22 | 14 | 25 | 28 | 13 | 17 | 7 | 6 | 5 | 3 | 1 | 2 | 0 |

| CYMHWYSTER L2 | NIFER | Dist | Merit | Pass | U |
|---|---|---|---|---|---|
| MATHEMATEG YCHWANEGOL L2 | 33 | 11 | 6 | 2 | 14 |

| | | LEFEL | | |
|---|---|---|---|---|
| **LEFEL MYNEDIAD** | **Nifer** | **3** | **2** | **1** |
| MATHEMATEG | 2 | 0 | 2 | 0 |
| SAESNEG | 3 | 2 | 1 | 0 |
| CYMRAEG | 2 | 0 | 2 | 0 |
| GWYDDONIAETH | 2 | 0 | 1 | 1 |

## GORCHESTION Y TU ALLAN I WERSI 2024-25

Estynnwn longyfarchiadau mawr i ddisgyblion yr ysgol ar eu gorchestion y tu allan i wersi yn ystod blwyddyn heriol iawn. Diolchwn hefyd i'r staff am bob cymorth.

**Gweler yr Atodiad** am fanylion llawn.





Ysgol Gyfun Gŵyr

Gorau byw cyd-fyw

# Llyfryn Llwyddiannau 2025



Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

## DATHLU GWEITHGAREDDAU A LLWYDDIANNAU DISGYBLION YSGOL GYFUN GŴYR

Bu'n flwyddyn fawr i Ysgol Gyfun Gŵyr yn 2024-25, wrth iddi ddathlu ei phenblwydd yn 40 oed gyda gwledd o ddigwyddiadau ar gyfer teulu estynedig yr ysgol. Cafwyd cyfleoedd i ddysgwyr a staff presennol yr ysgol i ddysgu am ei hanes, ynghyd â dathliadau oedd yn cynnwys cyn-ddisgyblion a chyn-aelodau'r staff.

Ers agor ei drysau am y tro cyntaf yn ôl ym 1984, ac hynny wedi ymgyrch hir i sicrhau addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Abertawe, mae'r ysgol lwyddiannus hon wedi mynd o nerth i nerth. Mae'r cog wedi parhau yn rhan o logo'r ysgol ers y dechrau, yn symbol o ddysgwyr a staff yn cydweithio i greu cymuned glos yr ysgol o fewn cymunedau ehangach Abertawe a Chymru. Wrth ddathlu dros y flwyddyn ddiwethaf, bu'n bleser cael gweld gymaint o unigolion sydd wedi eu dylanwadu gan yr ysgol, a'u clywed yn canmol eu profiadau cyfoethog; mae'r geiriau 'Teulu Gŵyr' yn cwmpasu pob un, ac mae aelodau'r teulu hwn wedi mynd i bedwar ban y byd.

Braf yw cyhoeddi bod y profiadau yr un mor gyfoethog heddiw ag yr oeddent ddeugain mlynedd yn ôl, ac yn nhudalennau'r llyfryn hwn cewch flas o'r hyn mae Teulu Gŵyr wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.

## DATHLU’R DEUGAIN

### SIOE YR YSGOL - ‘Nôl i’r 80au’

Gyda’r ymarferion eisoes ar waith ers tymor yr haf 2024, roedd hi’n ddechreuad prysur i’r flwyddyn wrth i’r adrannau Drama, Cerdd a Chelf gydweithio i gynhyrchu’r sioe ‘Nôl i’r 80au’ er mwyn cofnodi pwnclwydd yr ysgol yn 40 oed. Roedd y gwaith ymarfer yn ddiwyd ac roedd yn hyfryd gweld mwynhad y dysgwyr wrth iddynt ymroi yn llwyr i gerddoriaeth a ffasiwn y cyfnod.

Fel rhan o’r paratoadau, cafwyd diwrnod ‘Nôl i’r 80au’, gyda staff a disgyblion yn gwisgo gwisg yr 80au ac yn mwynhau cerddoriaeth o’r cyfnod. Roedd ambell un hyd yn oed wedi cael hyd i’r eitemau ffasiwn gwreiddiol roeddent wedi’u gwisgo ar y pryd!

Yn Theatr y Taliesin ar ddechrau mis Tachwedd, felly, dyma wisgo’r ‘legwarmers’ a’r ‘shoulder pads’ a dringo i’r peiriant amser i fwynhau noson o sbri gyda cherddoriaeth a ffasiwn y 1980au. Gyda sgript gwreiddiol gan ein dirprwy, Mr Gareth Williams, wedi ei weu yn grefftus o amglych dwy stori rhamant, roedd yn berfformiad ysgubol gan gast swmpus – a gyda chyfraniad brwdfrydig gan y gynulleidfa yn ystod y gan olaf, hefyd. Roedd yn brofiad gwefreiddiol i’r perfformwyr a’r gynulleidfa, gyda digon o ganu a dawnsio o’r seddi yn ogystal â’r llwyfan wrth i ni glywed am hynt a helynt y cymeriadau ym mwrlwm dyddiau cynnar Ysgol Gyfun Gŵyr.

Mae diolchiadau enfawr yn mynd i’r adrannau Cerdd a Drama am y perfformiad byrlymus, i’r adrannau DT a Chelf am gynhyrchu’r set, ac i’r nifer fawr o aelodau staff a rhieni oedd wedi cynorthwyo drwy ganu offeryn, trefnu gwisgoedd, cydlynu’r cast a gweithio y tu ôl i’r llenni i’w wneud yn berfformiad mor llwyddiannus. Dyma ddechreuad egnîol i ddathliadau 40 yr ysgol!







## Cinio Dathlu'r Deugain

Wedi prysurdeb y perfformiadau, cafwyd cyfle i ymlacio yng nghwmni hen ffrindiau, wrth i staff o bob cyfnod dros hanes yr ysgol ymgynnull am ginio mawreddog yng Ngwesty'r King Arthur ar Benrhyn Gŵyr. Cafwyd adloniant gan grŵp gwerin ac anerchiad gan Mr Jeffrey Connick, Y Pennaeth, yn cydnabod ei ddyled i gyn-benaethiaid yr ysgol a phawb sydd wedi bod yn rhan o Deulu Gwyr dros y 40 mlynedd diwethaf. Dyma awyrgylch hyfryd i gofnodi penblwydd arbennig yr ysgol ac i hel atgofion gyda'n cydweithwyr. Diolch i Mr Ben Roberts a'r tîm am drefnu noson lwyddiannus iawn.



## Twrnament Chwaraeon Chwefror 2025

Cafwyd cyfle i ddathlu llwyddiannau'r ysgol ym myd chwaraeon ym mis Chwefror 2025 (Ionawr), wrth i'r ysgol gynnal noson o gemau pêl-rwyd a rygbi rhwng timoedd o gyn-ddisgyblion. Cynhaliwyd y weithgaredd yng Nghlwb Rygbi Tre-gŵyr, lle roedd cyfle i gymdeithasu a rhannu atgofion wedi'r ymarfer corff. Roedd llawer o hwyl ac mae eto'n deyrnged i ddylanwad yr ysgol ar ei disgyblion bod gymaint wedi ymateb i'r alwad i gymryd rhan – ac wedi dod â'u teuluoedd gyda nhw. Diolch i Mrs Sara Thomas am drefnu digwyddiad llwyddiannus iawn.





## Cyngerdd Dathlu'r Deugain

I goroni'r flwyddyn, dyma gynnal cyngerdd mawreddog yn Neuadd y Brangwyn, yn arddangos doniau diwylliannol dysgwyr hen a newydd, gan gynnwys perfformiadau gan gorau dysgwyr a staff yr ysgol, corau o gyn-ddysgwyr (oedd wedi dangos dipyn o ymroddiad wrth fynychu ymarferion ar benwythnosau yn arwain at y prfformiad terfynol), grwpiau dawnsio gwerin a pherfformiadau cerddorol gan ddysgwyr presennol a chyn-ddysgwyr.

Wedi'u plethu drwy'r noson roedd cyn-ddysgwyr yn arwain, sef Lowri Morgan, Rhodri Owen, Meleri Williams, Rhys Williams, Owain Clarke ac eraill, perfformiadau gan y soprano Elin Manahan Thomas, y delynores a cherddor gwerin Angharad Jenkins, y canwr-gyfansoddwr Geraint Rhys Whittaker, yr unawdydd Liam Edwards, y pianydd William Morris a mwy.

Daeth eraill i'r llwyfan i roi adroddiadau twymgalon o'u cyfnodau yn yr ysgol. Roedd yn noson fythgofiadwy oedd yn tystio i'r angerdd o fewn teulu'r ysgol a'r parch sydd tuag ati yn ei chymuned ehangach. Braf oedd gweld gymaint o gyfeillion yr ysgol yn rhan o'r gynulleidfa, gan roi cyfle i ddiolch i bawb oedd wedi bod yn rhan o stori'r ysgol dros y 40 mlynedd diwethaf. I gloi'r perfformiadau, cafwyd corau'r ysgol ynghyd i ganu darn newydd, gyda cherddoriaeth gan gyn-ddirprwy yr ysgol, Eric Jones, a geiriau gan y dirprwy presennol, Gareth Williams: 'Dathlu'r Deugain'. Roedd yn noson emosiynol, wefreiddiol, gyda darllediad rhaglen S4C 'Heno' yn tynnu sylw haeddiannol iawn at hanes Ysgol Gyfun Gŵyr ac addysg Gymraeg yn Abertawe.









Mae'n diolchiadau'n ddiffuant iawn i Miss Carwen George, Mrs Meinir Richards, Mrs Anne Morris a phawb oedd wedi paratoi disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion tuag at adloniant y noson.

Wrth edrych ymlaen, parhawn i feithrin doniau, dathlu'n treftadaeth a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

# AR Y MAES CHWARAEON

Gorchestion Addysg Gorfforol 2024-25

Daeth cyfle gwych i rai o ddysgwyr Bl.7 ac 8 yr ysgol wrth iddynt ddod yn Llysgenhadon Chwaraeon. Llongyfarchiadau felly i Zakaria Karam, Soffia Thomas, Daisy Stephens, Blake Morris-Carlyon, Skye Cannon a Hari Lillicrap o Flwyddyn 7, ac i Dylan Rees, Eliza Parry, Paige Williams, Thomas Bevan, Leela Rees ac Olivia Roberts o Flwyddyn 8.

## PÊL-RWYD



Llongyfarchiadau i dim pel-rwyd Bl.8 am ddod yn yn ail yn Nhwrnament Pel-rwyd Sir Abertawe. Colled agos iawn yn y gêm derfynol, wedi iddynt pob gem cyn hynny. Da iawn ferched!

## RYGBI

Unigolion:

- Bu'n flwyddyn o lwyddiant ar y maes unwaith eto i Lewis Edwards o Fl.13, a chwaraeoedd ei gêm gyntaf dros y Gweilch yn Awst 2024. Aeth ymlaen i gynrychioli tîm Dan 20 Cymru yn Ionawr 2025 - pan mai ef oedd yr unig chwaraewr oedd dal yn ddisgybl ysgol - ac ym mis Ebrill yn erbyn tim Dan 19 Iwerddon. Ym mis Mai cafodd le yng ngharfan hyfforddi Dan 20 Cymru eto, gan chwarae yn erbyn Lloegr fis Mehefin ac yn erbyn Sbaen ym mis Gorffennaf. I goroni'r cyfan, cafodd Lewis ei ddewis yng ngharfan Cymru dan 20 ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd. Dyma gamp eithriadol – mae'r ysgol yn falch iawn ohono.

- Bu dechreuad llwyddiannus i'r flwyddyn i sawl un o'r bechgyn ar drothwy Bl.11, wrth i'r canlynol gael eu dewis yn rhan o'r tîm Swansea Schoolboys fis Awst 2024: Jack Goddard, Tomi Davies, Harri Williams, Arthur Downing, Macsen Holland, Dafydd Jones, Jack Courtney, Cai Davies. Llongyfarchiadau iddynt.

- Cafodd Arun Templeton Bl.13 ei ddewis fel capten tîm Crawshays yn erbyn Coleg y Crist, Aberhonddu fis Rhagfyr 2024, ac wedi chwarae eto dros dîm cyntaf y Crawshays yn yr Alban ym mis Mawrth 2025. Llongyfarchiadau iddo.

- Roedd Cai Davies o Fl.11 wedi chwarae gem i dîm Dan 16 Y Gweilch yn erbyn y Scarlets fis Chwefror 2025, a chafodd Tomi Davies a Macsen Holland, hefyd o Fl.11, eu dewis i'r garfan ym mis Mawrth. Da iawn iddyn nhw i gyd.

- Roedd Cai Davies, Macsen Holland a Jack Courtney hefyd wedi chwarae dros dîm Dan 16 Gorllewin y Gweilch yn erbyn y Dwyrain y Gweilch fis Mawrth. Braf yw nodi bod hon yn fuddugoliaeth i'r Gorllewin!

- Gwelwyd Callum Hedges o Fl.11 yn chwarae i dîm Dan 16 De Cymru ddwy waith fis Mawrth 2025, gan guro Dwyrain Cymru y ddau dro. Profiad arbennig i Callum!

Timoedd:

Parhaodd llwyddiannau rygbi'r ysgol, gyda'r clod canlynol i dimoedd rygbi y bechgyn:

- Tîm rygbi Bl.11-13 wedi cyrraedd rownd cyn-derfynol ysgolion Gorllewin Cymru yn Nhachwedd 2024 ac wedi ennill Cwpan Cymru fis Ionawr 2025. Tipyn o gamp!
- Tîm 7 bob ochr Bl.9 wedi ennill y plât mewn cystadleuaeth yn Llandeilo Ferwallt fis Mawrth 2025
- Timoedd Bl.8, 9 ac 11 wedi cyrraedd rowndiau terfynol Abertawe fis Ebrill a Bl.8 wedi ennill y Cwpan

Ymdrech arbennig gan bawb!

# PÊL-DROED



## Unigolion:

- Daeth Evie Evans o Fl.9 yn un o dim ond tri o ddisgyblion Sir Abertawe oedd wedi eu dewis ar gyfer carfan pêl-droed U14 ysgolion Cymru. Chwaraeodd Evie yn ei gem gyntaf ym mis Mai 2025, gyda thîm ysgolion Cymru yn curo Lloegr 3-0. Buddugoliaeth i'w mwynhau!
- Llongyfarchiadau hefyd i Poppy Harris-Evans o Fl.7 ar gael ei dewis yn rhan o Sgwad Hyfforddi Academi Cymru o Dan 12 fis Chwefror 2025. Aeth ymlaen i gael ei dewis yn gôl-geidwad dros dîm Dan 14 Cymru ym mis Mai. Da iawn, Poppy!
- Llongyfarchiadau i Betsi Williams ac Isabella Williams o Fl.8 ar gael eu dewis yn rhan o garfan pel-droed Ysgolion Abertawe Dan 14 ym mis Gorffennaf, yn dilyn cyfres o dreialon heriol. Rhaid eu canmol ar eu hymroddiad a'u dygnwch, sydd wedi talu ffordd wrth arwain at y llwyddiant hwn. Da iawn!

## Timoedd:

Cafwyd y llwyddiannau canlynol i dimoedd pêl-droed yr ysgol yn 2024-25:

- Enillwyr Cwpan Cymru yn erbyn St Cyres fis Hydref 2024
- Dros 40 o ddisgyblion Bl.7 wedi cymryd rhan mewn twrnament pêl-droed ar ol ysgol fis Rhagfyr 2024, i ddathlu diwedd eu tymor cyntaf yn yr ysgol. Am ffordd wych i orffen y tymor! Diolch i Mr Rhys Evans am drefnu'r hwyl.
- Tim bechgyn Bl.7 wedi ennill pob gem ac yn bencampwyr Gorllewin Abertawe, yna colli mewn gêm agos yn erbyn Llandeilo Ferwallt fis Mai 2025 i ddod yn ail yng Nghystadleuaeth Abertawe gyfan. Tipyn o gamp!
- Tîm merched Bl.8 wedi ennill y cwpan yng Nghystadleuaeth 5 Bob Ochr yr Urdd fis Hydref 2025. Llongyfarchiadau ferched!

# HOCI

Bu un o'n chwaraewyr hoci, sef Sam Cross o Fl.11, yn cynrychioli Cymru yn y School Games fis Medi 2024, ac hyn yn fuan wedi iddo deithio i Ffrainc gyda'r Wales Touch Association. Cyfnod prysur iddo a llwyddiant arbennig!

# CRICED

## Unigolion:

- Cynrychiolodd Tomos Edwards o Fl.11 dîm De a Gorllewin Lloegr a Chymru yn y Bunbury Cricket Festival yn Loughborough fis Awst 2024. Roedd Tomos hefyd wedi ei ddewis yn Academi Criced Morgannwg yn Rhagfyr 2024 ac wedi chwarae ei gêm gyntaf i ail dîm Morgannwg ym mis Gorffennaf 2025, gan cymryd ei wiced cyntaf dros y tim. Da Iawn, Tom!
- Roedd Tomos hefyd wedi ei ddewis yn y gynghrair XI am y tro cyntaf, ynghyd â'i frawd Lewis o Fl.13
- Roedd Lewis Edwards, John Mann, Ioan Richards, Theo Rogers a Ryan Evans (cyn-ddisgybl), oll o Fl.13, wedi eu dewis yn rhan o dîm criced ieuenctid De Cymru i wynebu'r tîm dros 50 oed ym mis Awst 2024
- Roedd Dylan Rees Bl.9, a Nia Thomas a Payton Bishop o Fl.7 wedi cynrychioli timoedd criced De Cymru ym mis Mai. Llongyfarchiadau iddynt!
- Llongyfarchiadau hefyd i Nia am gynrychioli tîm merched Dan 12 Morgannwg ac i Efa Killa Bl.9 am chwarae dros dîm Dan 14 De Cymru ym mis Mai

Da iawn iddynt oll!

## Timoedd:

Braf oedd y cyfle i dîm bechgyn Bl.8 i gymryd rhan mewn twrnament criced yn Ynys y Barri yn Nhymor yr Haf 2025

## BADMINTON

Mae'r ysgol wedi profi tipyn o lwyddiant yn y gamp hon dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd hwn wedi parhau wrth i ddisgyblion Bl.8 a 10 gystadlu yng Nghystadleuaeth Badminton De Cymru fis Mawrth 2025, gyda bechgyn Bl.8 yn dod yn bencampwyr De Cymru. Ardderchog!

## DRINGO

Ym mis Medi 2024, clywsom bod Seren Matthews o Fl.7 wedi ennill cystadleuaeth ddringo, ac o ganlyniad, wedi ennill lle i gynrychioli Cymru unwaith eto. Da iawn, Seren!

## JUDO

Roedd Tomas Roberts o Fl.12 wedi cynrychioli Cymru mewn twrnament jiwdo rhyngwladol yn Nhachwedd 2024 yn yr Iseldiroedd, a'i chwaer Olivia Roberts Bl.8 wedi cystadlu ym Mhrifysgol Warwick yn Rhagfyr 2024, gan ddod yn bencampwraig Prydain yn y categori dan 44kg, gyda medal aur. Da iawn wir, Tomas ac Olivia!

## GOLFF

- Cynrychiolodd Tomos Williams a Mathew Lewis Dîm Golff Ysgolion Cymru ym Medi 2024, yn Stoke. Llwyddiant arall i'r ddau, sydd wedi serennu mewn nifer o gystadlaethau dros y flwyddyn.
- Bu cystadlu brwd yng nghystadleuaeth flynyddol yr ysgol yng nghlwb golff Parc Fairwood fis Gorffennaf. Llongyfarchiadau i Deri Evans o Fl.10 am ennill y brif wobr, Osian Evans Bl.10 am ddod yr agosaf i'r pin ac i Jamie Hodge am ennill y 'stableford'.

## TRAWS GWLAD

- Roedd medalau aur i Tomi Jones o Fl.7 ac Eliza Parry o Fl.8 yng nghystadleuaeth traws-gwlad yr Elba ym mis Tachwedd 2024. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt!
- Llwyddodd Holly Humphreys Bl.12 i ennill ras y merched hŷn yn Aberhonddu fis Hydref 2025. Arbennig, Holly!

## NOFIO

- Llongyfarchiadau mawr i Osian Richardson o Flwyddyn 12, oedd wedi cystadlu ym Mhencampwriaeth Nofio Cenedlaethol Cymru yn Rhagfyr 2024.
- A daeth cyfle anhygoel i Thomas Morgan o Fl.8, wrth iddo gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Nofio Tîm Siroedd Cenedlaethol fis Hydref 2025. Da iawn wir, Thomas!

## RHWYFO

Mi wnaeth Tegan Webster Bl.9 gystadlu ym Mhencampwriaeth Rhwyfo Mewnol Prydain yng nghanolfan yr NEC yn Birmingham fis Rhagfyr 2024, ac wedi ennill medal efydd yn y categori 500m sprint i flwyddyn 9. Ardderchog Tegan!

## ATHLETAU

Eto eleni, bu cryn dipyn o lwyddiant i unigolion a thimoedd yr ysgol ym maes athletau, a chyrhaeddodd yr ysgol rowndiau terfynol Cystadleuaeth Athletau Cymru ym mis Gorffennaf 2025. Da iawn, bawb!

## MABOLGAMPAU'R YSGOL

Cafwyd diwrnod prysur o sbort a sbri draw yn Ashleigh Road wrth gynnal Mabolgampau'r ysgol fis Mehefin 2025. Roedd cystadlu brwd rhwng y llysoedd, ac roedd yn hyfryd gweld y dysgwyr yn cymryd rhan ond hefyd yn dathlu llwyddiannau'u cyfoedion. Dyma Deulu Gŵyr ar ei gorau ond, er y cydweithio, roedd yn rhaid i un llys ddod yn fuddugol! Tro llys Dylan oedd hi eleni, gyda Gwenllian yn ail ac Olwen yn drydydd.





## TEITHIAU CHWARAEON

Taith Dubai

Ym mis Hydref 2024, cafwyd cyfle unigryw i ddysgwyr deithio i Dubai er mwyn cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon a chael profiadau bythgofiadwy gyda'u cyfoedion. Cafwyd gemau rygbi a phêl-rwyd yn ystod y daith, ynghyd â chyfleoedd i ymweld ag atyniadau'r ardal a dysgu am y diwylliant. Roedd canmoliaeth ddiffuant i ymddygiad y dysgwyr a mawr oedd eu diolch i'r staff a weithiodd mor galed i drefnu'r daith arbennig hon.








## Taith Sgîo



Roedd profiadau gwych i'w cael ar y llethrau i ddysgwyr Bl.8 a'r chweched dosbarth, wrth iddynt fynychu taith sgio yr ysgol i Awstria ym mis Rhagfyr 2024. Roedd ymddygiad y dysgwyr yn ardderchog, a'r awyrgylch wych wedi sicrhau taith bythgofiadwy.

# AR Y LLWYFAN DIWYLLIANNOL A CHREADIGOL

## Cymreictod

Enillodd yr ysgol Dystysgrif Siarter Iaith ym mis Mawrth 2025. Roedd cryn dipyn o waith wedi mynd i mewn i arddangos yr hyn mae'r ysgol yn ei wneud i hybu Cymreictod, ac mae'n diolchiadau'n mynd i Non Lewis o'r Adran Gymraeg am arwain ar hwn. Dyma glod i'r ysgol a thystiolaeth o'r cyfleoedd arbennig sy'n ein galluogi i roi'r ymdeimlad o berthyn i'n holl ddysgwyr.

Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol eraill i hybu Cymreictod ein dysgwyr yn 2024-25:

- Parhaodd clwb gemau bwrdd yr Urdd yn wythnosol, gyda grŵp selog o ddysgwyr yn mynychu ac yn mwynhau bob wythnos.
- Codwyd ymwybyddiaeth o Neges Ewyllys Da yr Urdd drwy weithgareddau ym mis Mai 2025
- Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen ar Ionawr y 25ain gyda disgo hwyl i Fl.7.
- Roedd y Daflen Gymreictod hefyd wedi parhau yn weithredol ym Ml 7 ac 8 a bu'r cystadlu'n frwd er mwyn cipio'r wobr am y dosbarth gorau
- Roedd y criw Cymreictod yn weithgar iawn wrth baratoi at Eisteddfod Dur a Mor Margam eleni, gan gynnal diwrnodau gwisg anffurfiol/coch, gwyn a gwyrdd a thrwy addurno blaen yr ysgol gydag addurniadau Mistar Urdd a'r Ddraig Goch

Llongyfarchiadau i Heledd Francis ac Erin Hill o Fl. 12, oedd wedi eu dewis fel Llysgenhadon y Coleg Cymraeg, sydd yn rôl bwysig iawn wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd prifysgol cyfrwng Cymraeg. Da iawn, ferched!

Gorffenwyd y flwyddyn drwy gynnal dathliad arbennig ym mis Gorffennaf i holl aelodau'r Pwyllgor Cymreictod, ynghyd â chystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd. Dyma gyfle i ddathlu llwyddiannau grŵp ac unigol, a hynny wrth fwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Diolch eto i Mrs Non Lewis am drefnu.

## Cogurdd Hydref 2025

Hyfryd oedd gweld oddeutu 30 o ddysgwyr o flynyddoedd 7, 8 a 9 yn gwisgo'u ffedogau ac yn torchi'u llewyd er mwyn cymryd rhan yng ngystadleuthau Cogurdd a Poburdd, dan arweiniad Mr Lloyd Henry. Roedd yn wych gweld sgiliau dysgwyr mor ifanc yn y gegin – mae'n amlwg bod etifeddiaeth Mr Henry mewn dwylo diogel!





## EISTEDDFOD YSGOL GYFUN GŴYR 2025

Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri wrth i deulu'r ysgol ymgynnull yn y Gampfa eto eleni i ddathlu ein Eisteddfod flynyddol. Dyma gyfle i ddysgwyr ddathlu eu Cymreictod a chynnal rhai o'n traddodiadau diwylliannol, yn ogystal â chreu ambell un newydd ar gyfer yr oes fodern. O unawdau telyn swynol i i fandiau cegin swnllyd, dangosodd y dysgwyr amrywiaeth o dalentau wrth iddynt berfformio i ennill pwyntiau i'w llysoedd! Diolch i Mrs Non Lewis, yr Adran Gymraeg ac eraill am drefnu, ac i Tom Mills am gydlynu'r sain a thynnu'r lluniau.





## PRIF DLYSAU EISTEDDFOD YR YSGOL

Ym mhrif dlysau'r ysgol, roedd y beirniaid unwaith eto wedi eu taro gan y grefft a'r dychymyg ar waith yn ein dysgwyr. Pleser oedd clywed beirniad y Gadair, Mari Stevens, yn canmol safon y gystadleuaeth cyn cyhoeddi mai enillydd Cadair Eisteddfod Ysgol Gyfun Gwyr 2025 oedd Heledd Francis o Flwyddyn 12. Dyma fuddugoliaeth arall i'r aml-dalentog Heledd, sydd yn bêl-droedwraig arbennig yn ogystal ag yn fardd ac yn awdur dawnus tu hwnt.



Yn fuddugol yn y Tlws Saesneg eleni oedd Catrin Watkins o Fl.12. Eto, nododd y beirniad uchelgais y dysgwyr wrth arbrofi gydag iaith a syniadau. Llongyfarchiadau mawr i Heledd ac i Catrin, a diolch i'r beirniaid Mari Stevens ac Owain Clarke: dau gyn-ddisgybl a chyn-enillwyr y tlysau eu hunain. Gwerthfawrogwn barodrwydd y ddau i roi yn ol o'u hamser wrth i ni ddathlu penblwydd arbennig Ysgol Gyfun Gŵyr.

## TLYSAU A GWOBRWYAU LLENYDDOL ERAILL

Enillwyd Tlws a Gwobr Goffa Dafydd Rowlands eleni gan Macsen Williams o Fl.13, gan barhau llwyddiant yr ysgol yn y gystadleuaeth hon. Llongyfarchiadau gwresog iawn iddo ar ddod i'r brig yma. Cynhaliwyd y seremoni wobrwyo yng Nghapel y Nant, Clydach. Yn ei feirniadaeth, disgrifiodd y beirniad, Dewi Lewis, sut cafodd ei syfrdanu gan ddau ddarn o ryddiaith grymus a chraff gan Macsen. I ymestyn llwyddiant yr ysgol, daeth Garan Jenkins, hefyd o Fl.13, yn ail gyda stori a ddisgrifwyd fel un ddychmygus a sensitif. Da iawn hefyd i Garan.



Gan adeiladu ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Ysgol, daeth Heledd Francis o Fl.12 yn ail yn Nhlws Llenor Ifanc Eisteddfod yr Hendy ac hefyd yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc Gŵyl Fawr Aberteifi 2025 ym mis Gorffennaf. Da iawn wir, Heledd!

Yn ogystal, gwahoddwyd Mr Jeffrey Connick, y Pennaeth, i fod yn Llywydd Eisteddfod yr Hendy ym mis Mai. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r eisteddfod hon am yr holl brofiadau cyfoethog mae hi wedi cynnig i ddysgwyr Ysgol Gyfun Gŵyr dros y blynyddoedd.

## CANLYNIADAU EISTEDDFOD YR URDD MALDWYN 2024

Roedd cyffro drwy'r flwyddyn wrth i ddysgwyr a staff baratoi i groesawu Esietddfod yr Urdd i Barc Margam. Cafwyd nifer o weithgareddau i godi arian, gan gynnwys dyddiau gwisg anffurfiol coch, gwyn a gwyrdd. Trefnodd Mrs Non Lewis Daith Gerdded Mistar Urdd o'r Mwmbwls i Barc Margam, gyda lluniau o'r dyn trionglog ei hun yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol i nodi'i gynnydd pob cam o'r ffordd.

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod, rhannwyd stondin ar y maes gydag ysgolion Bryn Tawe, Ystalyfera a Bro Dur, a phleser oedd cyfarfod a nifer fawr o gyn-ddisgyblion a staff oedd wedi galw draw i ddweud helo, i fwynhau paned ac i bori trwy'r cyfrolau o luniau.

Pleser oedd gwylio dysgwyr yr ysgol yn ymroi i gystadlaethau o bob math ac yn mwynhau'r profiad yn fawr. Daeth tipyn o lwyddiant i'r ysgol hefyd, gyda'r prif wobrau wed'u nodi yma:






<u>Llwyddiannau Cystadlaethau Gwaith Cartref Llenyddiaeth</u>

Elin Powell 3edd Rhyddiaith Bl.7
Carys James 3edd Rhyddiaith Bl.12 a 13
Heledd Francis 3edd Rhyddiaith dan 19
Garan Jenkins 3ydd Rhyddiaith dan 25
Heledd Francis ac Erin Hill wedi dod yn 1af ac yn 3edd yn y gystadleuaeth farddoniaeth i Fl.12 a 13

<u>Llwyddiannau Cystadlaethau Llwyfan</u>

Orion Summers Bl.11 1af yn y monolog
Beca Richardson Bl.9 1af yn yr unawd telyn
Harri Trick Bl.7 -2il yn yr unawd piano
Emily Carlson Bl.13 2il yng nghystadleuaeth y Cogurdd
2il wobr i'r grwpiau ensemble lleisiol ac offerynnol iau
Rhianwen Hopkin Bl.12 3edd yn yr unawd telyn
3ydd i'r parti merched iau

Cafwyd gwahoddiad i'r ysgol i berfformio'r sioe 'Dy Enw Marw' ar lwyfan yr Eisteddfod, a dyma gyfle arall i arddangos y ddrama arbennig hon wedi ei llwyddiant yn y Theatr Genedlaethol yn Llundain y llynedd.

## BYD Y CELFYDDYDAU




<u>Llwyddiannau yn y maes cerddorol</u>

Gwelir o'r holl waith Eisteddfod felly bod y dysgwyr yn parhau i dderbyn profiadau cerddorol o'r safon uchaf, sydd yn cynnal enw da yr ysgol yn y maes hwn. Fodd bynnag, roedd yr Adrannau Cerdd a Drama hefyd yn brysur gyda gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn. Gwelir detholiad o'r rhain yma:

- Cyfrannodd y côr hŷn tuag at berfformiad o 'Teilwng yw'r Oen' yn Neuadd y Brangwyn fis Rhagfyr 2024
- Roedd y côr iau wedi diddanu siopwyr ym Marchnad Nadolig Abertawe ym mis Rhagfyr 2024
- Ym mis Ebrill, daeth cwmni teledu Avanti i ffilmio'r côr cyn Eisteddfod Dur a Môr 2025
- Roedd nifer o'n dysgwyr wedi perfformio yn 'Gwyl Tawe' yn Amgueddfa'r Glannau ym mis Mehefin
- Roedd sawl un o gorau yr ysgol wedi perfformio yng Nghanolfan Siopa'r Cwadrant, fel rhan o ddathliadau 10 mlynedd o Abertawe fel Dinas Dysgu UNESCO
- Aeth côr merched iau yr ysgol i ganu yn Eglwys Santes Catrin, Gorseinon, fel rhan o ddathliadau 60 mlynedd o Gôr Waunarlwydd

Diolch i'r dysgwyr am eu hymroddiad ac i Miss Carwen George a Mrs Siân Wynn am eu hyfforddi.

## Drama



Cafwyd amryw gyfleoedd drama eleni hefyd, gan gynnwys dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithdy gyda'r Theatr Genedlaethol ym mis Rhagfyr 2024.

Roedd Orion Summers Bl.11 wedi ei gyflogi gan Theatr Genedlaethol Llundain, i wneud troslais i fideo dathliadau 30 mlynedd o'r wyl Connections! Dyma flwyddyn arbennig i Orion - llongyfarchiadau enfawr iddo!

Llongyfarchiadau hefyd i Amelia Porter o Fl.9, chwaraeodd ran 'Marian' yn y ffilm 'Mr Burton', gyda'r actorion adnabyddus Toby Jones a Lesley Manville yn serennu. Am brofiad i Amelia!

# LLWYDDIANNAU A GWEITHGAREDDAU LLENYDDOL

## Blwyddyn 12 Cwrs Glan-llyn

Ganol Tachwedd 2024, cafodd disgyblion y chweched dosbarth gyfle gwych i fynychu Cwrs Safon Uwch Glan-lly, gydag ymweliadau i gartref Hedd Wyn, Yr Ysgwrn, barddoni ar gyfer y Talwrn a manteisio ar gyfleusterau eraill y gwersyll. Roedd yn gyfle i fwynhau a chymdeithasu wrth ddysgu a mireinio'u sgiliau ysgrifennu.

## Siarad Cyhoeddus











Cafwyd dipyn o lwyddiant ym maes siarad cyhoeddus eto eleni, dan arweiniad Mr Rhodri Evans a Miss Kate Smith.

Fis Tachwedd 2024 aeth criw o ddysgwyr Bl.9 i'r Guildhall i gymryd rhan mewn sesiwn hyfforddiant wedi'i drefnu gan Rwydwaith Seren. Dysgodd y grwp am sgiliau pwysig yn ymwneud a rheolau dadlau ffurfiol. Profiad penigamp!

Aeth y dysgwyr hyn ymlaen i ennill Cystadleuaeth Ddadlau ranbarthol drwy gyfrwng y Saesneg, a drefnwyd gan Rwydwaith Seren, gan gystadlu yn erbyn saith ysgol arall mewn tair dadl. Y cam nesaf oedd mynd i Goleg yr Iesu yn Rhydychen. Da iawn i Beca, Zofia, Elliw a Georgie-Bo! I ychwanegu at y gamp hon, bu llwyddiant hefyd i'r tim cyfrwng Cymraeg yn hwyrach yn y mis, oedd felly yn ymuno a'r tim Saesneg ar gyfer y gystadleuaeth yn Rhydychen. Da iawn wir i Gwion, Elise, Chloe a Mared!

Daeth llwyddiant pellach i'r ddau griw yn y rownd derfynol yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, wrth iddynt faeddu 89 o ysgolion eraill ar draws Cymru i ennill y cystadleaethau Cymraeg a Saesneg. Dyma berfformiadau ysgubol gan y dysgwyr, oedd wedi elwa'n fawr o'r profiad. Cawsant fewnweledIad i fywyd prifysgol yn eu taith o gwmpas y coleg ac arhosant mewn llety myfyrwyr yn y brifysgol. Roedd canmoliaeth uchel i'w dadleuon cryf, eu hymatebion meddylgar a'u siarad hyderus – sgiliau a fydd o fudd mawr iddynt yn eu dyfodol academaidd a phroffesiynol. Gwaith ardderchog!

Ym mis Chwefror 2025, aeth criw o Fl.11 a 12 i gystadleuaeth y Rotari, 'Youth Speaks'. Er nad oeddent wedi llwyddo i fynd ymalen i'r rownd nesaf y tro hwn, cafwyd canmoliaeth am safon eu cystadlu ac mae'u diolchiadau'n fawr i Mrs Rhiannon Lewis am eu hyfforddi.

# LLWYDDIANNAU'R ADRAN WYDDONIAETH

## Gwyddonydd y Flwyddyn - Gwobr Dr John Davies 2024

Cyflwynir Gwobr Dr John Davies pob blwyddyn i'r disgybl gafodd y marc gorau yng nghymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Ddwyradd ac sydd wedi serennu yn y maes. Roedd Dr John Davies yn un o gewri gwyddoniaeth Cymru, yn enwedig yn ardal Abertawe, ac yn gyfaill triw i Ysgol Gyfun Gŵyr. Ymhlith nifer o uchafbwyntiau gyrfa Dr Davies oedd astudio yn MIT a hefyd derbyn Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg 2012 am ei wasanaeth i Wyddoniaeth a Thechnoleg yn y Gymraeg. Mae'n braf bod enw Dr Davies yn parhau i gael ei gysylltu gyda maes gwyddoniaeth yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Rhoddwyd y wobr hon eleni i Amy Thomas o Fl.12. Llongyfarchiadau i Amy ar ennill y statws clodwiw hwn ac ar ymuno â'r galeri o gyn-ddisgyblion sydd wedi serennu ym maes gwyddoniaeth dros y blynyddoedd.

## Cystadleuaeth 'Top of the Bench'

Cafwyd profiad arbennig i ddysgwyr o Fl.8-11 ym mis Rhagfyr 2024, wrth iddynt gymryd rhan yng nghystadleuaeth Cemeg 'Top of the Bench' ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd dau dîm yn cymryd rhan, gyda'r timau yn cynnwys un disgybl o flwyddyn 8, un o flwyddyn 9 ac un o 10, yn ogystal â'r capten o flwyddyn 11, felly dau dîm o bedwar disgybl yr un. Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu hymroddiad ac ar ddangos gwaith tîm ardderchog:
Jac James-Mathias, Safia Sullivan ac Isaac McAdie o Fl.8; Rhys Jones ac Elektra Thomas o Fl.9; Niamh Cresswell a Gwennan Jones o Fl.10; Logan Burrow a Genova-Rose Scalise o Fl.11.

## Cystadleuaeth Hydrogen Mawrth 2024

Roedd y criw ynni hydrogen wedi profi llwyddiant unwaith eto eleni, gan ddod yn ail allan o 24 ysgol ar gyfer y gystadleuaeth uchod. Llongyfarchiadau mawr i'r grŵp, sef: Harley Vessey-McPherson, James Sartori, Xanthia Williams, Joe Lewis, Ffion Morris Griffiths, Chloe James, Iolo Ruddy a Nathan Lewis, oll o Fl.10. Nodwyd canmoliaeth uchel y beirniaid o brosiect y grŵp, ar y testun 'Decarbonisation of Swansea Waterfront Winterland'.

## Cystadleuaeth RSC Analyst - Taith Cemeg Prifysgol Abertawe Ionawr 2025

Llongyfarchiadau i'r canlynol am gymryd rhan yn y gystadleuaeth RSC Analyst: Ffion Morris Griffiths, Chloe Phillips, Xanthia Williams, James Sartori, Harley Vessey-McPherson, Joe Lewis, Nathan Lewis, Iolo Ruddy

## Diwrnod STEM

Cynhaliwyd Diwrnod STEM ar safle'r ysgol ar y cyd gydag ysgolion Ystalyfera a Bryn Tawe yng Ngorffennaf 2025, gan groesawu cyn-ddisgyblion a chyn-aelodau staff i siarad am eu teithiau drwy bynciau STEM a'r gyrfau posib maent yn arwain atynt. Diolch i bawb oedd ynghlwm am ysbrydoli'n dysgwyr.

## Sioe Hydrogen

Ym mis Gorffennaf, daeth cyfle i ddysgwyr Bl.10 fynychu Stiwdios y Bae yn Abertawe i arddangos eu gwaith ar hydrogen a datgarboneiddio. Cawsant gyfle i drafod 'pob dim hydrogen' gyda chwmniau rhyngwladol, yn ogystal ag archwilio stondinau, prynu bwyd a rhoi cynnig ar y bronco rodeo – popeth wedi'i bweru gan hydrogen, wrth gwrs!

## Cystadleuaeth Peirianneg Sifil yr ICE

Fis Medi 2025, cafodd dosbarth Ffiseg Bl.12 y cyfle i bontio'r bwlch rhwng gwyddoniaeth a pheirianneg wrth gymryd rhan yng nhystadleuaeth peirianneg sifil yr ICE yn erbyn ysgolion eraill ledled Cymru. Defnyddiodd y myfyrwyr eu gwybodaeth o'r dosbarth a'r byd go iawn i adeiladu'r bont fwyaf cryf posibl gan ddefnyddio'r deunyddiau oedd ar gael! Roedd digon o hwyl wrth gydweithio a datblygu sgiliau pwysig fel rhan o#r weithgaredd.

## MAES PEIRIANNEG, TECHNOLEG A CHYFRIFIADUREG

Diolch i'r adran Gyfrifiadureg am drefnu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn y clybiau a'r cystadlaethau canlynol yn ystod 2024-25:




- Cystadleuaeth Roboteg Technocamps Gorffennaf 2025
- Her Beirianneg ICE Wales-Cymru
- Cystadleuaeth 'Cybergirls'
- Cystadleuaeth Peirianneg EESW STEM Cymru
- Clwb TG yr Urdd

Hyfryd yw gweld gymaint o ddysgwyr yn ymddiddori yn y gwaith hwn ac yn mwynhau cymdeithasu wrth gydweithio ar borsiectau amrywiol. Diolch arbennig i Miss Emily Studley am ei gwaith wrth hybu ymroddiad merched i fyd technoleg.

## GWOBR DUG CAEREDIN A GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED

Yn ystod haf 2025 fe wnaeth Xanthia Williams a Lili James fynychu cwrs awyr agored 5 diwrnod a drefnwyd ac a dalwyd am gan gymdeithas y Rotari. Bu'n rhaid iddynt gael cyfweliad, a ddigwyddodd ym mis Mehefin, cyn iddynt gael cynnig lle a'u noddi i fod yn rhan o'r cwrs.

Cynhaliwyd y cwrs yn y Storey Arms, gan gynnwys gweithgareddau fel rafftio, ogofa, cerdded, oll gyda chriw o bobl ifanc nad oedden nhw wedi cwrdd o'r blaen. (Nid oedd L na X yno'r un wythnos). Tra'u bod yno, fe wnaeth Xanthia wneud cyflwyniad yn Gymraeg hefyd - y tro cyntaf mae'n debyg i hynny gael ei wneud, a chreodd argraff fawr ar y trefnwyr! Bydd y ddwy nawr yn gorfod cyflwyno eu profiadau o flaen bwrdd y Rotari mewn cyfarfodydd yn y misoedd nesaf. Roedd y ddwy wedi mwynhau ac wedi elwa o'r profiadau!

## TEITHIAU PRESWYL

<u>Taith Glan-llyn Bl.9</u>

Aeth criw o ddysgwyr Bl.9 i Wersyll Glan-llyn fis Tachwedd 2024 gyda'r Adran Gymraeg, gan fanteisio ar y cyfle i ymweld a rhai o atyniadau pwysig ar y ffordd, megis Y Llyfrgell Genedlaethol a chartref Hedd Wyn yn Yr Ysgwrn. Roedd y dysgwyr wedi mwynhau'n fawr o'r profiadau amrywiol ac wedi dysgu cryn dipyn am hanes a diwylliant ein gwlad.

<u>Taith i Amgueddfa'r Glannau</u>

Cafwyd diwrnod arbennig yn Amgueddfa'r Glannau ac i'r pantomeim fis Rhagfyr 2024, gyda dysgwyr yr Uned Addysg Arbenigol. Aeth y criw hefyd i Theatr y Grand ym mis Mawrth.

<u>Taith Testimony 360</u>

Cafwyd taith i Fl.12 a 13 gyda'r adrannau Hanes ac Addysg Grefyddol ym mis Ionawr 2025. Dyma weithgaredd Testimony 360, sydd yn codi ymwybyddiaeth o'r Holocôst a straeon dioddefwyr a goroeswyr.



<u>Taith Haworth yr Adran Saesneg</u>

Ym ms Ebrill, roedd dysgwyr Bl.12 wedi mwynhau'r cyfle i deithio i Swydd Efrog i ymweld a charterf Charlotte Bronte a dysgu am yr ysbrydoliaeth tu ol i'w nofel enocaf, Jane Eyre. Cafwyd hefyd cyfle i ymweld ag ambell safle arwyddocaol o fywyd y bardd Ted Hughes, gan roi mewnweledion diddorol i mewn igefnidr yr awduron hyn a chyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o gyd-destun.





## Taith Paris Bl.7



Aeth dysgwyr Bl.7 ar daith arbennig i Baris fis Gorffennaf 2025 er mwyn mireinio'i sgiliau Ffrangeg a chael blas ar ddiwylliant Ffrainc, gydag ymweliadau i barc Disneyland Paris, teithiau o amgylch safleoedd eiconig y ddinas, taith ar gwch ar hyd yr afon Seine a digonedd o 'cuisine' blasus i gynnal eu nerth drwy'r cyfan. Roedd yn daith llawn hwyl dan arweiniad staff yr Adran Ieithoedd Rhyngwladol.

## Taith Côr i Wlad Belg

I orffen y flwyddyn, cafwyd taith arbennig i Wlad Belg ar gyfer corau a pherfformwyr cerddorol yr ysgol. Dyma gyfle gwych i rannu diwylliant Cymru gydag eraill a chodi ymwybyddiaeth o'n hetifeddiaeth unigryw. Cafwyd perfformiadau angerddol oedd wedi cyffwrdd ag aelodau'r cynulleidfaoedd a denu canmoliaeth uchel. Ac roedd digon o hwyl a sbri ar gael hefyd wrth gymdeithasu drwy'r Gymraeg a dysgu eraill am ein gwlad. Roedd cyfle hefyd wrth gwrs i ymweld a bedd Hedd Wyn a dysgu rhywfaint yn fwy am brofiadau'r Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Taith Efrog Newydd

Gorffenwyd hanner tymor cyntaf 2025-26 gyda thaith arbennig i Efrog Newydd. Roedd yn brofiad bythgofiadwy i ddysgwyr wrth iddynt ymweld a'r Statue of Liberty ac Ellis Island, ac amrywiaeth o amgueddfeydd a safleoedd hanesyddol eraill, megis cofeb y Twin Towers yr 'Highline' (hen drac rheilffordd y ddinas) a'r Orsaf Fawr Ganolog. Cafwyd profiad llawn o fywyd prysur y 'Big Apple', gyda milltiroedd o gerdded, gan gynnwys drwy Central Park; heb anghofio amser i siopa, wrth gwrs! Dyma brofiad anhygoel i'r dysgwyr ac mae'u diolchiadau'n ddiffuant i'r holl staff oedd wedi mynychu ac i Mrs Jan Ohlsson Jones am gydlynu'r daith.









## CEFNOGI CYD-DDYN

### Bore Coffi Macmillan

Diolch i Mr Henry o'r adran Arlwyo am ei waith caled eto wrth gynnal Bore Coffi Macmillan ddiwedd mis Medi 2024. Codwyd swm teilwng iawn gan staff yr ysgol wrth iddynt fwynhau sgwrsio dros ddanteithion a phaned draw yn yr ystafell Technoleg Bwyd.

### Diwrnod Lles Cenedlaethol Hydref 2025

Cynhaliwyd diwrnod gwisg anffurfiol i godi arian tuag at elusennau iechyd meddwl lleol ym mis Hydref 2025. Dyma gyfle gwych i hybu empathi ac i godi ymwybyddiaeth o'r elusennau lleol sy'n gwneud gwaith gwych yn ein cymuned.

### Plant Mewn Angen 2024

Cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol ar draws yr ysgol i ddathlu Diwrnod Plant Mewn Angen 2024. Roedd dysgwyr wedi mwynhau'r cyfle i fynychu'r ysgol mewn gwisg anffurfiol ac i gymryd rhan mewn gemau a chwisiau. Diolch i'r staff a dysgwyr oedd wedi trefnu'r gweithgareddau.

### Diwrnod Gwisg Nadolig

Gwelwyd amrywiaeth o siwmperi Nadolig lliwgar wrth i'r ysgol gynnal Diwrnod Gwisg Nadolig fis Rhagfyr 2024, gan godi £1 ar bob disgybl oedd am gymryd rhan. Aeth yr arian at elusen Achub y Plant a chodwyd swm da tuag at yr achos.

### Cefnogi Ysbyty Treforys

Cafwyd gwaith gwych gan Fl.8 wrth iddynt godi arian a threfnu anrhegion ar gyfer plant yn Ward Oakwood yn Ysbyty Treforys. Cafodd grwp o ddysgwyr gyfle i fynd i'r ysbyty er mwyn cyflwyno'r rhoddion – da iawn bawb!

### Canu yn Ysgol Pen-y-Bryn

Daeth dysgwyr Bl.12 a 13, ac aelodau'r staff, at ei gilydd eto i ganu carolau yn Ysgol Pen-y-Bryn, gweithgaredd sydd yn arfer ers blynyddoedd ac sy'n dod a phleser i bob un boed yn cymryd rhan neu yn y gynulleidfa. I lawer o'n cymuned, mae'r digwyddiad hwn yn ddechreuad i ddathliadau'r Nadolig ac yn ffordd hyfryd i rannu ysbryd yr Ŵyl.

### Comic Relief 2025

Cafwyd cyfle i wisgo trwynau cochion a sanau od i godi arian at elusen Comic Relief ym mis Mawrth 2025. Diolch i bawb oedd wedi trefnu gweithgareddau i'w wneud yn ddiwrnod o hwyl i bawb at achos da!

### Taith 'Llais y Disgybl' i Norwy

Hefyd ym mis Hydref 2025, aeth cynrychiolwyr o Ysgol Gyfun Gwyr ar daith i Norwy, dan ofal Mrs Sara Horan a Miss Chloe James ac ar y cyd gydag ysgolion Bryn Tawe a Llandeilo Ferwallt. Roedd y daith yn rhan o brosiect 'Seen, Heard, Belong', sy'n dathlu llais disgyblion a diwylliant amrywiol mewn ysgolion ar draws Cymru, Norwy a Ffrainc. Cafodd ein dysgwyr gyfle i siarad am Gymru a'u profiadau nhw gyda dysgwyr Norwyeg – a dysgu ychydig o Gymraeg iddynt, gan wneud ffrindiau newydd yno. Bu cyfleoedd i gyrlio a lot o chwerthin wrth ymarfer y gamp unigryw hon!



Yna bu cyfle i deithio'n bellach i'r gogledd ac ymweld a phwll copr dan y ddaear, ac hefyd i fynd ar long y Crazy Coyote. Y gobaith fydd cynnal y berthynas gyda'n cyfeillion yn Ewrop drwy gynnal fwy o deithiau o'r fath, a rhannu syniadau am hybu lleisiau pobl ifanc.



## Pwyllgorau Hawliau

Bu gwaith y gweithgorau hawliau yn parhau yn y flwyddyn 2024-5, gyda gweithgorau yn ffocysu ar hiliaeth, Islamoffobia, hawliau LHDT+, hawliau merched codi arian at elusennau a gofalu am yr amgylchedd.

Daeth nifer o ddysgwyr y Pwyllgor Hawliau Merched at ei gilydd i gofnodi Diwrnod Rhuban Gwyn 2024 ym mis Tachwedd, sef diwrnod byd-eang i ymgyrchu yn erbyn trais tuag at fenywod. Cofnodir y diwrnod drwy wisgo rhubanau gwyn, ac roedd y criw wedi gweithio'n galed iawn i'w creu a'u dosbarthu i staff a dysgwyr yr ysgol. Roeddent hefyd wedi gwneud gwaith da wrth godi ymwybyddiaeth yn ein cymuned o bwrpas y dydd hwn.

Aeth criw o'r Gweithgor Hawliau i Amgueddfa'r Glannau fis Tachwedd 2024 i gofnodi Diwrnod Byd-Eang y Plentyn. Roedd llawer o sbort a sbri wrth gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Ym mis Mawrth 2025, cynhaliwyd digwyddiad 'Y Sgwrs Fawr' yn Amgueddfa'r Glannau, Abertawe, wedi'i drefnu gan Gyngor Abertawe. Roedd yn gyfle gwerthfawr i bobl ifanc leisio'u barn am faterion sy'n effeithio arnynt, gan adlewyrchu Erthygl 29 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd yn brofiad gwerthfawr i'r pedwar o'r Cyngor Ysgol oedd wedi mynychu. Daeth cyfle arall i gymryd rhan ym mis Mehefin, y tro hwn wrth ffocysu ar Erthygl 12 a gwrth-hiliaeth. Dyma griw o bobl ifanc ysbrydoledig – dyfodol Cymru yn wir!




Ym mis Gorffennaf, aeth Zofia a Beca o Fl.9 i gynrychioli'r ysgol mewn digwyddiad 'Llais y Disgybl' gyda Chyngor Abertawe, ynghyd a chynrychiolwyr eraill o ysgolion y ddinas. Dyma gyfle i leisio barn i'r Cyngor ar faterion o'r amgylchedd i lesiant meddwl i wrth-hiliaeth, gan bwyso ar y Cyngor i wrando ac i weithredu ar lais pobl ifanc.

Ym mis Hydref 2025, cafodd aelodau o'r Cyngor Ysgol gyfle i fynychu digwyddiad 'Yn ddiogel, yn cael eich clywed, yn cael eich parchu', wedi'i drefnu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru. Dysgodd y criw sut y gall lleisiau pobl ifanc ddylanwadu ar bolisiau ac arferion sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol. Eu nod yw cyfrannu at Gymru lle mae pob person yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei glywed ac yn cael ei barchu.




## Yr Amgylchedd

Braf oedd gweld criw o ddysgwyr o flynyddoedd 10-12 yn cymryd rhan mewn ymweliad a'r Senedd fel rhan o lobi torfol i annog gweithredu ar faterion amgylcheddol. Cawsant gyfle i drafod gyda'r Gweinidog dros yr economi, Rebecca Evans (AS Gwyr) a'r Aelod Rhanbarthol, Sioned Williams. Roedd y sesiynau'n hynod werthfawr ac yn rhoi cipolwg i sur mae penderfyniadau yn cael eu gwneud.

## "Derbyn" – Gweithgor LHDT+

Parhaodd gwaith y Clwb LHDTC+, gyda gweithgareddau amrywiol megis creu breichledi a dalwyr. Roedd y criw hefyd wedi cerdded yn yr orymdaith 'Pride' Abertawe eto ym mis Mai eleni, dan arweiniad Ms Becky Lindholme-Evans, a braf oedd gweld teulu a ffrindiau yno i'w cefnogi.



## LLWYDDIANNAU  A PHROFIADAU ACADEMAIDD

### Cyngor Ysgol

Etholwyd tîm newydd o Brif Ddisgyblion yn yr ysgol yn Nhymor yr Haf 2024. Roedd 10 disgybl wedi cynnig eu hunain, ac wedi cymryd rhan mewn areithiau, cyfweliadau a hefyd pleidlais er mwyn dewis y myfyrwyr buddugol.

Y pedwar a ddaeth i'r brig oedd: Lewis Edwards, Meg Evans, Garan Jenkins a Catrin Watkins Dechreuasant ar eu gwaith cyn gwyliau'r haf 2024, ynghyd â thîm o uwch swyddogion. Gyda gweddill aelodau'r Cyngor Ysgol o Fl.7-11, gwnaethant gyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gan wneud cyflwyniadau mewn nosweithiau agored, arwain trafodaethau yn y Cyngor Ysgol ac arddangos eu gallu fel arweinwyr y corff o ddisgyblion a myfyrwyr yn yr ysgol. Diolch i'r pedwar ohonynt am fynd o amgylch eu gwaith yn gydwybodol ac am gynrychioli'r ysgol mewn ffordd mor aeddfed a pharchus mewn sawl dugwyddiad cyhoeddus.

### Digwyddiadau Pynciol

Ym mis Rhagfyr 2024, mwynhaodd aelodau o Fl.7 gyflwyniad drwy fideo ar y gerdd hynafol 'Beowulf' gan Yr Athro Catherine Clarke o Brifysgol Llundain. Cafwyd cyfle i holi'r Athro Clarke ar ddiwedd y sesiwn, a braf oedd gweld bwrlwm a brwdfrydedd y dysgwyr wrth iddynt gynnig eu cwestiynau. Roedd yr Athro Clarke wedi canmol eu hymroddiad ac roedd yn brofiad pleserus i bawb!

Ym mis Rhagfyr 2024, aeth yr Adran Saesneg ag aelodau o flynyddoedd 10 a 13 i Theatr y Taliesin i weld perfformiad o nofel enwog Charles Dickens 'A Christmas Carol'. Roedd canmoliaeth uchel i'r dysgwyr am eu hymddygiad gwych ac roedd yn gyfle perffaith i ymdrochi yn naws y Nadolig.

Hefyd ym mis Rhagfyr, roedd cyfle i ddosbarth Llenyddiaeth Saesneg Bl.13 gael sesiwn holi ac ateb gyda'r hanesydd enwog, Dr Janina Ramirez, ar ddylanwad menywod yn y Canol Oesoedd – roedd hyd yn oed 'shout out' i'r ysgol gan y Llyfrgell Brydeinig!



Aeth clybiau darllen Saesneg CA3, 4 a 5 yn eu blaen eleni, gyda'r disgyblion yn mwynhau cwrdd yn achlysurol i drafod eu hymatebion i'r testun oedd wdi'i ddewis. Dyma gyfleoedd da i hybu darllen er pleser. Fel rhan o'r ymgyrch hon, cafodd Bl.7 ymweliadau i Lyfrgell Tre-gwyr a chyfle i gael menthyg llyfrau i'w darllen yn yr ysgol.

Diolch i'r Adran Seicoleg am drefnu ymweliad i CUBRIC (Canolfan Delweddu'r Ymennydd) yng Nghaerdydd i aelodau'r chweched dosbarth. Roedd yn gyfle arbennig i weld ymchwil ac arbrofi arloesol yn mynd yn ei flaen ac roedd digon o hwyl i'w gael wrth dreialu ambell arbrawf!

Ym mis Chwefror 2025, aeth dysgwyr Bl.10 i Ganolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd i weld perfformiad o 'An Inspector Calls' sydd yn ddrama maent yn ei hastudio ar gyfer eu cwrs TGAU Llenyddiaeth Saesneg. Roedd yn berfformiad trawiadol ac roedd y dysgwyr wedi elwa'n fawr o weld geiriau'r ddrama yn dod yn fyw ar y llwyfan.

Cafwyd llawer o hwyl ym Mawrth 2025 wrth ddathlu Diwrnod y Llyfr, gyda nifer o gystadlaethau a chwisiau ar draws yr ysgol a'r Adran Arlwyo yn cynnal 'Book Bake Off' dan ofal Mr Henry.

Hefyd o dan ofal Mr Henry, roedd dysgwyr Bl.10 wedi cymryd rhan mewn ymgais i dorri record byd wrth goginio'n fyw! Fel rhan o 'Live Cooking with Jamie Oliver' cynhyrchwyd pasta ffres a saws tomato blasus, gan hyd yn oed dderbyn cyfeiriad arbennig at eu hymdrechion ar y ffrydiau byw!

Cynigwyd profiad bythgofiadwy i rai dysgwyr Bl.9 ym Mehefin 2025, wrth iddynt gymryd rhan ym 'Mhrosiect Clasuron Rhwydwaith Seren'. Roedd angen ail-ddychmygu un o'r chwedlau Groegaidd yn cynnwys y dduwies Athena. Roedd tipyn o ganmoliaeth i'w creadigrwydd, oedd wedi'i gyfleu ar ffurf stribed cartwn enfawr (ynghyd a chorryn 3D!). Aeth y criw i Brifysgol Rhydychen ym Mehefin i gyflwyno'u gwaith mewn seremoni arbennig... ac wedi ennill! Da iawn wir i Harry, Matthew, Summer, Mia, Elin a Betsi! Cawsant gyfle i ymweld a'r Brifysgol ac Amgueddfa'r Ashmolean i ddarganfod byd hynafol y Rhufeiniad a'r Groegiaid. Diolch i Miss Kate Smith am gydlynu'r gwaith a gofalu am y criw ar eu taith.

## GWOBRWYO YMDRECH AC YMRODDIAD

Cafodd dros 200 o ddisgyblion eu gwobrwyo yng Ngorffennaf 2025, gyda seremoni arbennig i gydnabod y dysgwyr oedd wedi ennill y niferoedd uchaf o bwyntiau ar system Classcharts. Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i unigolion o bob blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 3 am ddod ar frig eu blynyddoedd.

### Seremoni Ffarwelio Bl.13

Cawsom seremoni ffarwelio arbennig yn y stiwdio ddrama ym mis Mehefin 2025. Roedd cyfle i'r staff a'r myfyrwyr fwynhau bwyd blasus, cyn seremoni i wobrwyo llwyddiannau'r flwyddyn a chyfle i hel atgofion. Rhoddwyd geiriau caredig gan y Pennaeth a'r Penaethiaid Blwyddyn, yn dymuno'n dda i'r criw ar gam nesaf eu taith bywyd. Byddent yn sicr o gofio gyda phleser eu cyfnod arbennig yn Ysgol Gyfun Gŵyr. Diolchwn i bawb am eu cyfraniad tuag at brynhawn i'w gofio.

### Gwethgareddau Diwedd y Flwyddyn

Cynigwyd nifer o weithgareddau i orffen y flwyddyn yn Ngorffennaf 2025, gyda dysgwyr yn mwynhau cyfleoedd i syrffio, caiaco, ymgymryd â gweithgareddau awyr agored a gwneud ystod o weithgareddau hwyl ar y safle, gan gynnwys helfa drysor, tenis bwrdd, cwis a Just Dance. Dyma gyfleoedd cyffrous i gymdeithasu a mwynhau drwy gyfrwng y Gymraeg cyn gadael ar gyfer gwyliau'r haf.

Aeth dros 150 o ddysgwyr Bl.8 ar wibdaith gyffrous i barc Alton Towers a chafwyd diwrnod yn llawn o gyffro a sbri. Roedd digon o sgrechian a chwerthin, gydag ambell lais coll erbyn diwedd y dydd!

Roedd hi'n ddiwrnod braf ar y traeth i griw o ddysgwyr oedd wedi manteisio ar y cyfle am hyfforddiant syrffio yn Llangennith, dan ofal hyfforddwyr profiadol. Diolch i Mr Longman am drefnu diwrnod cofiadwy.

### Llwyddiannau cyn-ddisgyblion

Buodd llwyddiant i'n cyn-ddisgybl, Cai Gealy, wrth iddo ymddangos i dîm rygbi'r Bristol Bears fis Hydref 2024, gan ddod y chwaraewr mwyaf ifanc yn hanes y clwb i'w cynrychioli. Da iawn Cai!

Roedd cyn-ddisgybl Gwyr, Liam Edwards, wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth gerddorol 'Y Llais' ar S4C ym mis Mawrth.

## LLWYDDIANNAU STAFF



Parhaodd llwyddiant Miss Bethan Jones, athrawes yn yr Adran Fathemateg, wrth iddi gystadlu mewn sawl cystadleuaeth duathlon a triathlon eto yn 2024-5, gan gynnwys cystadleuaeth byd yn Pontevedra, Sbaen. Dyma gystadleuaeth fyd-eang sy'n denu'r athletwyr gorau, felly mae camp Miss Jones yn un i'w chanmol. Er gwaethaf cwympo oddi ar ei beic, gorffennodd y ras mewn un awr, 11 munud ac wyth eiliad gan gipio'r trydydd safle yng ngrŵp oedran 25 i 29. Edmygwn ei gwydnwch yn fawr!

Llongyfarchiadau hefyd i nifer o aelodau staff sydd wedi rhedeg rasys hanner marathon, Iron Man neu gampau eraill yn ystod y flwyddyn. Dyma ddangos y gwydnwch sy'n perthyn i'n hathrawon ym mhob agwedd o'u bywydau!

Yn adeiladu ar ei llwyddiant fel un o ddisgyblion 'Pencerdd' yn 2024, mae Mrs Non Lewis yn parhau i wneud argraff ar feirniaid ar hyd a lled de Cymru gyda'i sgiliau barddonol. Enillodd gadair Ysgol Farddol Caerfyrddin 2024 gyda'r gerdd 'Cragen' a ddarlledwyd ar raglen 'Dros Ginio' fis Hydref 2025 wrth i Radio Cymru ddathlu Non fel eu 'Bardd y Mis'. Hefyd bu'n fuddugol yng Nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Penbre a Phorth Tywyn fis Medi 2025. Llongyfarchiadau gwresog iddi! Gwelir gwaith Mrs Lewis wedi'i gyhoeddi yng nghyfrolau Barddas 'O Ffrwyth y Gangen Hon' a 'Trysorau'r Nadolig'.

Llongyfarchiadau mawr i Mr Lloyd Henry am gyrraedd y rhestr fer ar gyfer "Superhero Food Educator of the Year" ym mis Gorffennaf. Mae eisoes yn archarwr i ni yn Ysgol Gyfun Gŵyr, ond mae'n braf ei weld yn cael fwy o gydnabyddiaeth y tu hwnt i furiau'r ysgol. Ardderchog!